Cyngor Sir Penfro

# Cynllun Datblygu Lleol 2
# Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

2017-2033



# Strategaeth Ddewisol
# Cyfnod Ymgynghorol Cyn-Adneuo

17 Rhagfyr 2018 – 4 Chwefror 2019

## Rhagair

Rwy'n hynod falch o gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2 Strategaeth Ddewisol 2017-2033.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ddogfen hollbwysig oherwydd ei bod yn cyflwyno'r fframwaith datblygu sy'n cael ei ddefnyddio i benderfynu ceisiadau cynllunio a llywio defnydd tir yn Sir Benfro, oddi allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, rwyf wedi bod mewn amrywiaeth o achlysuron ymgynghori gyda chymunedau, cynghorwyr a rhanddeiliaid. Yn yr achlysuron hyn, rydym wedi trafod y materion sy'n wynebu Sir Benfro heddiw ac yn y dyfodol, ac rwyf wedi gwrando ar amrywiaeth o farn ar sut allwn ni ddelio â'r materion hyn.

Fel Awdurdod, mae Cyngor Sir Penfro wedi ystyried yn drylwyr faint o ddatblygu sydd ar Sir Benfro ei angen i gynorthwyo twf y gymuned a busnes. Mae angen i ni hefyd warchod rhinweddau arbennig Sir Benfro, yn arbennig ei thirlun, cynefinoedd, rhywogaethau a mannau agored. Mae'r dyletswyddau a roddwyd arnom fel Awdurdod Lleol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016, sy'n gofyn ein bod yn gwella ffyniant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Benfro yn ogystal â chyfoethogi bioamrywiaeth, wedi llunio sut ydym wedi gwneud yr Adolygiad o'r CDLl a'i ganlyniadau.

Rydym eisiau sicrhau bod Sir Benfro, yn 2033, yn fan cynaliadwy, lle caiff cymunedau eu cynorthwyo gyda chartrefi, swyddi, cyfleusterau cymunedol a seilwaith newydd. Rydym hefyd eisiau gwarchod a diogelu amgylchedd yr ardal a darparu llecynnau glas i gynorthwyo pobl fyw bywydau iach. Gobeithiwn y gall y Cynllun Datblygu Lleol helpu inni gyflawni hyn.

Fe fyddwn i'n annog holl gymunedau i ystyried y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn a helpu inni lunio dyfodol Sir Benfro trwy ymateb i'r cynigion hyn.

**Y Cynghorydd Phil Baker, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio ac Isadeiledd**
**Rhagfyr 2018**



## Cynnwys


Rhagair .... 3

Geirfa .... 8

Crynodeb Gweithredol .... 11

Cyflwyniad .... 13

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2017-2033 .... 13

Beth yw Strategaeth Ddewisol y CDLl? .... 13

Dogfennau Atodol .... 14

Ymgynghori Blaenorol ac Ymgysylltu â'r Gymuned .... 14

Ymateb i'r Ymgynghori hwn â'r Cyhoedd .... 15

1. Cyd-destun a Materion Allweddol .... 16

Trosolwg .... 16

Nodweddion Allweddol .... 16

Cyd-destun Strategol .... 17

Y Cyd-destun Cenedlaethol .... 17

Cyd-destun Rhanbarthol .... 18

Bargen Ddinesig Bae Abertawe .... 18

Ardaloedd Menter .... 18

Awdurdodau Cynllunio Cyfagos .... 19

Cyd-destun lleol - Sir Benfro .... 19

Materion a Sbardunau Allweddol .... 20

2. Gweledigaeth ac Amcanion .... 23

Gweledigaeth y CDLl .... 23

Amcanion y CDLl .... 24

3. Arfarnu Dewisiadau Twf Strategol .... 25

Trosolwg .... 25

Ffigur 1: Rhagamcaniadau Twf Poblogaeth a Chartrefi 2017-2033 .... 25

Arfarnu Dewisiadau Twf gyferbyn ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd .... 27

Arfarnu Dewisiadau Twf gan Randdeiliaid .... 27

Y Dewis Twf a Ffefrir .... 28

4. Arfarnu Dewisiadau Gofodol .... 29

Trosolwg .... 29

Hierarchaeth Anheddau .... 29

Dewisiadau Gofodol ... 29
Dewisiadau Gwledig ... 30
Arfarnu Dewisiadau Gofodol gyferbyn â’r Arfarniad o Gynaliadwyedd ... 30
Casgliadau Dewisiadau Gofodol a Ffefrir ... 31
5. Y Strategaeth ... 33
Trosolwg ... 33
Meintiau Twf ... 33
Nifer y Cartrefi Newydd ... 33
Sefyllfa Bresennol Tir ar gyfer Tai a Diwallu’r Angen a Nodwyd ... 33
Mathau o Gartrefi sydd eu Hangen ... 34
Nifer y Swyddi Newydd ... 34
Strategaeth Gynaliadwy ... 34
Rhaniad Neilltuo Tir Trefol / Gwledig ... 35
Agweddau at Bolisi Gwledig ... 35
Hyrwyddo Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd ... 35
Draenio a Chynlluniau Draenio Cynaliadwy (SDC) ... 35
Ffigur 2: Diagram Allweddol Strategaeth y CDLl ... 37
6. Polisïau Strategol ... 38
**SP 1 Creu Lleoedd Cynaliadwy** ... 38
Maint y Twf ... 40
**SP 2 Gofyniad Tai** ... 40
**SP 3 Targed Tai Fforddiadwy** ... 42
**SP 4 Cynorthwyo Ffyniant** ... 43
Y Strategaeth Ofodol ... 44
**SP 5 – Hierarchaeth Anheddau – Strategaeth Anheddau Cynaliadwy** ...
**SP 6 Ffiniau Anheddiad** ... 47
**SP 7 Prif Drefi** ... 48
**SP 8 Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu** ... 51
**SP 9 Pentrefi Lleol** ... 53
**SP 10 Cefn Gwlad** ...
**SP 11 Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd** ... 57
**SP 12 Datblygiad Cysylltiedig ag Ynni a Phorthladdoedd** ... 59
**SP 13 Darparu Tir Cyflogaeth** ... 61
**SP 14 Hierarchaeth Fanwerthu** ... 63

**SP15 Economi Ymwelwyr** ... 65
**SP16 Mwynau** ... 66
**SP17 Y Gymraeg** ... 68
Ffigur 3: Mynychder Siaradwyr Cymraeg fesul Cyngor Cymuned (Cyfrifiad 2011) ... 70
**SP 18 Seilwaith Cludiant a Hygyrchedd** ... 71
**SP 19 Atal a Rheoli Gwastraff** ... 73
7. Polisïau Cyffredinol ... 75
**GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol** ... 75
**GN. 2 Dylunio Cynaliadwy** ... 78
**GN.3 Seilwaith a Datblygiad Newydd** ...
**GN.4 Cynigion Effeithlonrwydd Adnoddau a Ynni Adnewyddadwy a Rhad ar Garbon** ... 82
GN.5 Datblygiadau Mewnlenwi mewn Pentrefannau ... 84
8. Cynnydd a Chyfnodau'r CDLl yn y Dyfodol ... 85
Safleoedd Ymgeisiol ... 85
Cyfnodau Allweddol a Llinell Amser Arfaethedig y CDLl ... 85
CDLl Cyn Adneuo ac Adneuo ... 85
Canllawiau Cynllunio Atodol ... 85
Atodiadau ... 86
Atodiad 1: Tabl Tai Fforddiadwy ... 86

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Mabwysiedig | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn fabwysiedig pan fydd Cyfarfod Cyngor yr Awdurdod yn penderfynu mai hwn fydd y Cynllun Datblygu ar gyfer y Sir gan ddisodli'r Cynllun Datblygu presennol. |
| Tai Fforddiadwy | Datblygiad preswyl ar werth neu rent islaw prisiau'r farchnad a'u cadw fel tai fforddiadwy am byth. |
| Neilltuad Tai Fforddiadwy | Tir a neilltuwyd ar gyfer tai fforddiadwy naill ai fel perchentyaeth cost isel neu rentu. |
| Argaeledd a Danfonadwyedd Tir | Mae tir ar gael yn cynnwys bod tirfeddiannwr yn barod i ddatblygu neu werthu ar gyfer datblygu. Mae danfonadwyedd yn gysylltiedig â hyfywedd economaidd datblygu safle. |
| Cefn Gwlad | Tir oddi allan i anheddau a ddynodwyd yn yr Hierarchaeth Anheddau. |
| Y Cynllun Adneuo | Drafft llawn o'r Cynllun sydd ar gael ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y Cyfnod Adneuo. |
| Seilwaith Gwyrdd | Rhwydwaith o ardaloedd a nodweddion naturiol a lled-naturiol sy'n cyfrannu at safon uchel yr amgylchedd. Gall gynnwys llwybrau beiciau a llwybrau troed |
| Neilltuo Tir ar gyfer Tai | Safleoedd datblygu preswyl ar gyfer o leiaf 5 uned ac wedi'u dangos yn y Cynllun Datblygu. |
| Isadeiledd | Mae isadeiledd yn cwmpasu cyflenwad trydan, cyflenwad dŵr, dull o wared carthion neu ddŵr arwyneb, ffyrdd a rhwydweithiau cludiant eraill, telathrebu a chyfleusterau sydd eu hangen fel fframwaith i ddatblygiad. |
| Tai'r Farchnad Agored | Tai ar werth am brisiau'r farchnad (gan gynnwys hunanadeiladu neu adeiladu tai wrth fesur). |
| Mewnlenwi a Llyfnu | Caniatáu tai newydd pan fyddant yn 'mewnlenwi' bylchau bach rhwng eiddo neu pan fyddant yn 'llyfnu' ymyl anheddiad. Caiff mannau lle mae hyn yn dderbyniol eu nodi gan ffiniau anheddu. |
| Cynllunio trwy Apêl | Cynigion datblygu i'r diben yn absenoldeb strategaeth ddatblygu i lywio datblygiad. |
| Dewis a Ffefrir | Y dewis unigol neu ddewis cymysgryw sy'n deillio o ystyried amrywiaeth o ddewisiadau neu faterion ar ôl ymgynghori. |
| Strategaeth Ddewisol | Y ddogfen strategaeth ffurfiol gyntaf ar gyfer adolygu'r CDLl sy'n dangos y fframwaith a pholisïau trosfwaol fydd yn llywio'r polisïau a chynigion cysylltiedig â defnydd tir. |
| Adroddiad yr Adolygiad | Mae'n cyflwyno beth yn y CDLl sydd angen ei newid a pham. |
| Is-anheddiad | Pentrefan bach neu gasgliad o anheddau sydd ar wahân i brif anheddiad, ond sydd â chysylltiad cryf â'r anheddiad hwnnw. |
| Ffin Anheddiad | Offeryn cynllunio yw ffin anheddiad sy'n llinell ddamcaniaethol ar fap i nodi terfyn anheddiad. Yn nodweddiadol, dim ond o fewn y terfyn hwn y mae hawl datblygu tai gan ystyried mai cefn gwlad yw ardaloedd oddi allan iddo. |

| | |
|---|---|
| Hierarchaeth Anheddau | Caiff anheddau eu dosbarthu o fewn yr hierarchaeth ar sail y boblogaeth a faint o wasanaethau sydd ynddynt. Bydd rhai anheddau bach iawn, gydag ychydig iawn neu ddim gwasanaethau, yn dod oddi allan i'r hierarchaeth ac yn cael eu diffinio fel cefn gwlad. |
| Hunanadeiladu / Adeiladu Tai wrth Fesur | Datblygiad tai wrth fesur wedi'i gomisiynu a'i reoli gan y darpar ddeiliad. Ymhob achos, boed y cartref yn cael ei hunanadeiladu neu ei adeiladu wrth fesur, perchennog gwreiddiol y cartref fydd prif ysgogydd ei ddyluniad a'i gynllun terfynol. |
| Gyda Chysylltiad Da | Gyda chysylltiad da â ffurf adeiledig anheddiad o ran agosrwydd, cysylltedd ffisegol a chynaliadwy a pherthynas weledol. |

## Crynodeb Gweithredol

a. Y Strategaeth Ddewisol yw dogfen strategaeth allweddol gyntaf Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol.

b. Mae'n cyflwyno, at ymgynghori, y materion a nodwyd fel y rhai hollbwysig i Sir Benfro hyd at 2033, **Gweledigaeth Ddrafft** o'r math o le yr hoffem i Sir Benfro fod yn 2033 a'r **Amcanion** sydd angen i ni eu cyflawn er mwyn i hyn ddigwydd.

c. Mae'r **Strategaeth** yn cyflwyno sut mae'r Cyngor yn ystyried y dylid dosbarthu a chyflawni twf newydd dros ardal y Cynllun, gyda pholisïau strategol yn dangos agweddau penodol mewn gwahanol fannau ac ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad.

### Faint o Dwf sy'n Cael ei Gynnig

d. Mae'r Cynllun yn bwriadu cyflawni'r twf canlynol rhwng 2017 a 2033:

| |
|---|
| 6,800 o gartrefi newydd<br>a<br>2,200 o swyddi newydd |

### Dosbarthiad Gofodol Twf

e. Bydd y twf hwn yn cael ei ddosbarthu dros ardal y Cynllun yn unol â strategaeth ofodol sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Fel rhan o hyn mae **Hierarchaeth Anheddau** yn crynhoi anheddau'n wahanol gategorïau, gan ddibynnu ar faint o wasanaethau a chyfleusterau sydd ynddynt. Defnyddiwyd trefn bwysoli sy'n rhoi'r pwysau mwyaf i'r cyfleusterau hynny a nodwyd fel y rhai sy'n debygol o leihau'r angen i deithio ac sydd fwyaf tebygol, felly, o fod yn fannau cynaliadwy. Bydd y twf mwyaf (safleoedd o 5 tŷ neu fwy) yn mynd i anheddau yn haen Pentref Gwasanaeth neu uwch yn yr Hierarchaeth Anheddau.

f. Yr awgrym yw neilltuo tir ar gyfer tai yn ôl rhaniad 60% Trefol / 40% Gwledig (safleoedd dros 5 uned), sy'n cyd-fynd yn fras â rhaniad presennol y boblogaeth yn Sir Benfro. Mae'r agwedd hon yn cynnig cyfleoedd i dyfu cymunedau trefol a gwledig fel ei gilydd.

### Ardaloedd Gwledig

g. O fewn yr anheddau a ddynodwyd fel Pentrefi Lleol yng nghefn gwlad, bydd ffiniau anheddiad yn nodi mannau sy'n cael eu hystyried yn briodol ar gyfer datblygu (gan gynnwys tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol). Oddi allan i anheddau, bydd cyfleoedd cyfyngedig i fewnlenwi bylchau'n deimladol. Fe all hyn fod ar gyfer tai'r farchnad agored, pan fo 20 annedd neu fwy, a thai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol mewn mannau gyda llai nag 20 annedd.

**Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd**

h. Yn y Cynllun, mae polisi strategol i warchod yr Amgylchedd. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd ac mae'n gofyn bod datblygiad newydd yn cyflawni gwelliannau o'r fath lle bo modd.

# Cyflwyniad

## Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2017-2033

i. Bydd poblogaeth Sir Benfro'n cynyddu yn ystod yr 16 mlynedd nesaf, a bydd angen cartrefi, swyddi, cyfleusterau cymunedol a seilwaith newydd i gynnal y twf hwn. Mae'n bwysig bod twf yn cael ei gynllunio'n briodol i sicrhau ei fod yn elwa'r gymuned ac yn cyflawni datblygu cynaliadwy. Hefyd, mae angen gwarchod rhannau allweddol o Sir Benfro rhag datblygiad i ddiogelu amgylchedd yr ardal a darparu llecynnau glas i hybu dulliau iach o fyw.

ii. Mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn gofyn bod awdurdodau lleol yng Nghymru'n paratoi a chynnal cynllun datblygu sy'n trin agweddau defnydd tir ar yr heriau uchod, ac yn gwneud hynny'n unol â dyletswydd datblygu cynaliadwy a ymgorfforwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Penfro i gynhyrchu cynllun datblygu ar gyfer ei ardal gynllunio, nad yw'n cynnwys tiriogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Os na fydd yn dweud yn wahanol, mae **Sir Benfro**'n cyfeirio at ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro yn rhannau eraill y ddogfen hon.

iii. Mabwysiadodd Sir Benfro **Gynllun Datblygu Lleol (CDLl)** yn 2013 a ddaw i ben yn 2021. Felly, mae angen datblygu CDLl amgen (**CDLl 2**) fydd yn rhoi fframwaith i ddatblygiad yn Sir Benfro (ac eithrio'r Parc Cenedlaethol) am y cyfnod rhwng ei fabwysiadu a 31 Rhagfyr 2033. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol presennol yn aros mewn grym cyn mabwysiadu'r Cynllun Amgen, sydd i'w ddisgwyl yn 2021.

## Beth yw Strategaeth Ddewisol y CDLl?

iv. Y **Strategaeth Ddewisol** yw'r ddogfen strategaeth allweddol gyntaf a gynhyrchwyd at ymgynghori fel rhan o CDLl 2 Sir Benfro. Mae'n cyflwyno agwedd fras y CDLl at sicrhau bod datblygiad yn Sir Benfro'n digwydd mewn ffordd gynaliadwy.

v. Y Strategaeth Ddewisol sy'n rhoi'r cyd-destun strategol i baratoi polisïau, cynigion a neilltuo defnydd tir manylach a fydd wedyn yn cael eu cynnwys yn y CDLl Adneuo, sydd i'w baratoi maes o law.

vi. Datblygwyd y Strategaeth Ddewisol gan ymgorffori gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol
- Strategaethau a dynodiadau lleol a rhanbarthol (gan gynnwys Trefniant Dinas-ranbarth Bae Abertawe ac Ardal Fenter Sir Benfro)
- Gwybodaeth o Adroddiadau Arolygu Blynyddol yn dangos sut mae'r CDLl 1 cyfredol yn cyflawni.
- Adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth gysylltiedig â materion allweddol ac unrhyw ddiweddariadau cyd-destunol.
- Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol (gan gynnwys Cynghorau Cymuned ac Aelodau) ac Ymgysylltu â'r Gymuned.

vii. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn cyflwyno **Gweledigaeth**, **Amcanion** strategol a **Strategaeth Ofodol** fras y Cyngor i lywio faint o ddatblygu a thwf sy'n cael eu dewis ar gyfer Sir Benfro yn y dyfodol, wedi'i ddiffinio trwy gyfres o bolisïau strategol sy'n trin prif flaenoriaethau'r Cynllun. Ei nod yw llywio nid yn unig ddyheadau'r Cyngor, ond hefyd rai darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol eraill, yn ogystal â datblygwyr, y bydd eu hymateb cyfunol yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y Cynllun. Lle datblygwyd polisïau cyffredinol, cynhwyswyd y rhain hefyd i ganiatáu sylwadau cynnar ar rai o'r meini prawf manwl fydd yn cael eu defnyddio i gynorthwyo cyflawni'r polisïau strategol.

## Dogfennau Atodol

viii. Gwnaed **Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG)** ac **Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)**[1] ar y Strategaeth Ddewisol i asesu a fydd y CDLl yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol (cadarnhaol neu negyddol) ar yr amgylchedd a gweld a fydd yn cynorthwyo cyflawni datblygu cynaliadwy. Gwnaed **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)**[2] ac **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)**[3] arni hefyd.

ix. Mae Asesiadau Strategol a Phapurau Pwnc eraill yn rhoi gwybodaeth ategol a sail resymegol i'r Strategaeth Ddewisol hefyd. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n fanylach ar rai o'r materion allweddol sydd o arwyddocâd arbennig i'r Sir ac, felly, i'r CDLl. Maent ar gael ar wefan y Cyngor.[4] Dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Strategaeth Ddewisol, oherwydd mai dim ond eu prif ganfyddiadau sy'n cael sylw yn y ddogfen hon o dderbyn gymaint o ddata a gwybodaeth gefndirol sydd ynddynt.

x. Cyhoeddwyd dwy ddogfen ychwanegol ochr yn ochr â'r Strategaeth Ddewisol, sef **Adroddiad yr Adolygiad** diwygiedig a'r **Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol**. Dogfen yw Adroddiad yr Adolygiad sy'n dangos pa rannu o'r CDLl cyfredol sydd angen eu newid. Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn dangos pob un o'r safleoedd a gyflwynwyd i'r Awdurdod fel rhan o'i alwad am Safleoedd Ymgeisiol yn 2018. Safleoedd yw'r rhain a gyflwynwyd gan y cyhoedd yn awgrymu tir i'w ddatblygu, neu i'w amddiffyn rhag datblygiad. Nid yw'r Awdurdod eto wedi penderfynu pa safleoedd fydd yn cael eu cynnwys yn y CDLl – bydd hyn yn dibynnu'n rhannol ar ganlyniad yr ymgynghori ar y Strategaeth Ddewisol. Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn dangos y safleoedd hynny sydd, ar hyn o bryd, yn cydymffurfio â'r Strategaeth Ddewisol ac mae cyfle i'r cyhoedd roi sylwadau ar y safleoedd hyn fel rhan o'r ymgynghori hwn â'r cyhoedd.

## Ymgynghori Blaenorol ac Ymgysylltu â'r Gymuned

xi. Rhwng Mehefin a Medi 2018 cyhoeddodd y Cyngor ddwy ddogfen CDLl allweddol at ymgynghori â'r cyhoedd, o'r enw:

---

[1] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol
[2] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/arfarniad-rheoli-cynefinoedd
[3] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/asesiad-effaith-cydraddoldeb
[4] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdll2-sail-dystiolaeth

- Drafft Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion CDLl2; a
- Drafft Papur Dewisiadau Tai Strategol CDLl2 *'Twf a Dosbarthiad Gofodol'*

xii. Aseswyd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghori, a dylanwadodd llawer ohonynt ar baratoi'r ddogfen hon, y Strategaeth Ddewisol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghori ar y Materion, Gweledigaeth, Amcanion a Dewisiadau Tai Strategol ar wahân.[5]

xiii. Bydd unrhyw sylwadau a ddaw ar fersiwn ymgynghori'r ddogfen hon (y Strategaeth Ddewisol) yn cael eu hystyried a byddant yn ysbrydoli paratoi'r Cynllun Adneuo. Bydd holl sylwadau, gan gynnwys manylion yr enwau a sefydliadau sy'n eu gwneud, yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.

## Ymateb i'r Ymgynghori hwn â'r Cyhoedd

xiv. Bydd ymgynghori â'r cyhoedd ar y ddogfen hon – y Strategaeth Ddewisol – yn digwydd rhwng **17eg Rhagfyr 2018 a'r 4ydd Chwefror 2019**. I roi sylwadau ar y cynigion, ymwelwch ag www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud.

[5] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdll2-sail-dystiolaeth

## 1. Cyd-destun a Materion Allweddol

### Trosolwg

1.1 Sir wledig yn bennaf yw Sir Benfro, gyda dylanwad cryf y môr. Mae ganddi hanes o ddatblygu seiliedig ar amaethyddiaeth, twristiaeth, amddiffyn, ynni a gweithgareddau porthladd yn canoli ar Aber Cleddau. Nodweddiadol o'r ardal yw cyfres o anheddau gwahanol, ond cyd-ddibynnol. Mae'r amgylchedd unigryw ac ymdeimlad cryf o gymuned yn ddeniadol i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd ac mae'n creu ymdeimlad neilltuol o le. Asedau rhyngwladol yw porthladdoedd Sir Benfro ac Aber Cleddau, ac maent yn hollbwysig i sicrwydd ynni'r DU yn y dyfodol.

1.2 Rhaid i'r CDLl gadw'r fantol yn wastad rhwng gwarchod yr elfennau hynny sy'n gwneud Sir Benfro'n arbennig, ar yr un pryd â hwyluso cyfleoedd newydd ar gyfer twf a ffyniant busnesau a chymunedau ledled ardal y Cynllun.

1.3 Seiliwyd y Strategaeth Ddewisol ar ddealltwriaeth gadarn o'r cyd-destun rhanbarthol a lleol, a'r materion allweddol sy'n wynebu'r Sir. Datblygwyd y Strategaeth Ddewisol o sylfaen dystiolaeth helaeth ac ar y cyd ag amrywiaeth o Randdeiliaid trwy ymgynghoriadau anffurfiol â'r cyhoedd.

1.4 Mae'r cyd-destun a materion sy'n cael eu cyflwyno yn y bennod hon wedi ysbrydoli Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl a gyflwynir ym Mhennod 2, ac mae hefyd wedi cyfrannu at ddadansoddiad y Dewisiadau Twf Tai Strategol a ddisgrifir ym Mhenodau 3 a 4. Mae dadansoddiad y Dewisiadau Twf Tai Strategol yn darparu'r llwyfan y seilir y Strategaeth ym Mhennod 5 arni.

### Nodweddion Allweddol

1.5 Nodweddion allweddol a defnyddiau tir gofodol ardal y Cynllun yw:

- Awdurdod gwledig yn bennaf yw Sir Benfro.[6] Trwch ei phoblogaeth, sy'n 77 o bobl y cilomedr sgwâr, yw'r isaf ond pedwar yng Nghymru.
- Mewn trefi o gwmpas Aber Cleddau (Penfro, Doc Penfro, Aberdaugleddau a Neyland), Hwlffordd (Prif Dref y Sir), Abergwaun ac Wdig ac Arberth mae crynoadau o boblogaeth a chyflogaeth. Mae dosbarthiad y boblogaeth bresennol yn rhannu rhwng 54% yn byw yn y prif drefi a 46% yn byw yn yr ardal a ddiffiniwyd fel gwledig.
- Deil cyflogaeth i ganolbwyntio ar y diwydiant ymwelwyr a gwasanaethau, gwerthu a thrwsio cerbydau modur, gweithgynhyrchu, adeiladu, iechyd y cyhoedd ac amaethyddiaeth.[7]
- Mae Aber Cleddau o arwyddocâd cenedlaethol i'r sectorau porthladdoedd, diwydiant ac ynni. Dynodwyd hefyd yn am werth ei dirwedd a bioamrywiaeth.
- Mae llawer o'r arfordir o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (ynghyd â'r ardal o amgylch Daugleddau a'r Preseli).

---

[6] Gwelwch ffigur 3.1 Proffil Economaidd Sir Benfro (PACEC) Sylfaen Dystiolaeth CDLl 2

[7] Proffil Economaidd Sir Benfro (PACEC) Sylfaen Dystiolaeth CDLl 2

- Dynodwyd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) morol a daearol, ynghyd â Pharth Cadwraeth Forol (PCF) Sgomer, a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Lleol.
- Mae gan y Sir nifer mawr o asedau treftadaeth; yn ardal y Cynllun mae 1636 o adeiladau rhestredig a 248 o Henebion Cofrestredig. Ar hyn o bryd mae 20 o Barciau a Gerddi Hanesyddol, dwy Dirwedd Hanesyddol, 24 o Ardaloedd Cadwraeth (gyda Menter Treftadaeth Treflun yn Hwlffordd), dau barc gwledig, 42 llawr pentref a 57 cilomedr sgwâr o dir comin[8] sydd, gyda'i gilydd, yn ychwanegu at nodweddion naturiol ac etifeddiaeth ddiwylliannol arbennig yr ardal.
- Mae afonydd fel Cleddau Wen (er enghraifft yn Hwlffordd), Afon Ritec ac Afon Teifi isaf yn dueddol o orlifo.
- Prif seilwaith cludiant y sir yw'r rhwydwaith Cefnffyrdd, cysylltiadau rheilffordd â Doc Penfro, Wdig ac Aberdaugleddau a phorthladdoedd fferi yn Noc Penfro ac Abergwaun. Mae maes awyr Hwlffordd yn faes awyr rhanbarthol bach.
- Mae canol nifer o brif drefi Sir Benfro'n hanesyddol, rhai ohonynt wedi'i chael yn anodd yn fasnachol yn y blynyddoedd diwethaf.

## Cyd-destun Strategol

### Y Cyd-destun Cenedlaethol

1.6 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yn rhoi dyletswydd ffyniant ar gyrff cyhoeddus sy'n gofyn bod holl gyrff cyhoeddus yn datblygu'n gynaliadwy. Mae'n pennu saith nod ffyniant i gynorthwyo'n gallu i ddatblygu'n gynaliadwy.

1.7 **Deddf yr Amgylchedd 2016** yw'r ddeddfwriaeth ar gyfer cynllunio a rheoli cyfoeth naturiol Cymru. Mae'n cynnwys mwy o ddyletswydd o ran bioamrywiaeth sy'n gofyn bod Awdurdodau Cyhoeddus yn cynnal a gwella bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

1.8 Mae'n rhaid i'r cynllun hwn roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru (Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), nes y bydd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn cymryd ei le, unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo.

1.9 **Polisi Cynllunio Cymru** (PCC) (Argraffiad 9) yw polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru a dylid ei ystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu. Yn ategu hyn gyda chanllawiau technegol mae **Nodiadau Cyngor Technegol** (NCT) a **Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau**. Mae canllawiau trefniadol i'w gweld hefyd yng Nghylchlythyrau Llywodraeth Cymru.

1.10 O'i gyhoeddi, bydd **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** yn llywio penderfyniadau ynghylch defnyddio'n moroedd yn gynaliadwy. Bydd y polisïau hefyd yn berthnasol wrth ystyried datblygiadau daearol a allai effeithio'r amgylchedd morol. Mae'n cwmpasu ardaloedd y cynlluniau morol gyda'r lan ac alltraeth (i'r marc penllanw) gyda Gweinidogion Cymru'n awdurdod cynllunio

[8] Gan gynnwys arwynebedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro


morol arnynt. Bydd angen integreiddio rhwng ardaloedd cynllunio morol a daearol.

## Cyd-destun Rhanbarthol

### Bargen Ddinesig Bae Abertawe

1.11 Saif Sir Benfro ar ben mwyaf gorllewinol Dinas-ranbarth Bae Abertawe (y Ddinas-ranbarth).[9] Dynodwyd y Ddinas-ranbarth ar sail llifau presennol teithio i'r gwaith, y gallu i gael gwell cysylltedd, traddodiad o gyd-ddibyniaeth gymdeithasol ac economaidd a gweithio presennol fel partneriaid.

1.12 Tiriogaethau pedwar Awdurdod y De-orllewin, sef Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gâr sy'n ffurfio'r Ddinas-ranbarth. Mae disgwyl i'r Fargen Ddinesig roi dyrchafiad parhaol o £1.8 biliwn yn GYC Dinas-ranbarth Bae Abertawe a bydd yn cynhyrchu bron 10,000 o swyddi newydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Y pecyn buddsoddi llawn yw £241 miliwn o gymorth ariannol Llywodraethau'r DU a Chymru, £396 miliwn o fuddsoddiad arall o'r Sector Cyhoeddus a £637 miliwn o'r Sector Preifat.




1.13 Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys nifer o brosiectau gyda goblygiadau i CDLI Sir Benfro. Prosiect yw cynnig Morol Doc Penfro sy'n anelu at gynhyrchu sail ynni ddi-ail yn y rhanbarth a chyflymu datblygiad technoleg ynni o'r môr. Mae syniad 'Cartrefi fel Gorsafoedd Trydan' yn cynnwys datblygu rhaglen helaeth o godi tai ac ôl-ffitio sy'n cyfuno technolegau newydd fel bod adeiladau'n gallu cynhyrchu, cadw a rhyddhau ynni. Bydd Arfordir y Rhyngrwyd yn cynnig cyfleoedd i wella TGCh. Thema arall gyda goblygiadau i'r CDLI yw patrwm 'Ffatri'r Dyfodol' sy'n ceisio creu swyddi gweithgynhyrchu uwch newydd a fydd yn cynnwys adain gorfforol ym Mhenfro.

### Ardaloedd Menter

1.14 Aber Cleddau yn Sir Benfro yw un o saith o Ardaloedd Menter a lansiwyd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn 2012. Mae'n cynnwys safleoedd ar hyd glannau gogledd a de Dyfrffordd Aberdaugleddau ynghyd ag amryw safleoedd

---

[9] Adroddiad Terfynol y Dinas-ranbarthau, Llywodraeth Cymru (2012)

eraill sydd heb gyswllt â'r Ddyfrffordd (ond yn dal o fewn Sir Benfro). Mae terfynau gofodol i'r ardaloedd menter. Yn achos Aber Cleddau, cyllidol yn unig yw natur y cymhellion sydd ar gael o fewn y ffiniau hynny ac nid oes unrhyw gynllun cynllunio unswydd. Cyhoeddwyd Cynllun Strategol ar gyfer yr amrywiol Ardaloedd Menter gan Lywodraeth Cymru yn 2015 a'i ddiweddaru yn 2017. Mae disgwyl i'r Bwrdd cysylltiedig ag Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau barhau tan 2021 o leiaf.

## Awdurdodau Cynllunio Cyfagos

1.15 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP), Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Gâr i gyd wrthi'n adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol, gydag APCAP ymhellach ymlaen yn y gwaith nag Awdurdodau eraill ac yn debygol o gyflwyno'i CDLl 2 i'w Archwilio yn hwyr yn 2018. Ymrwymodd Cyngor Sir Penfro i gydweithredu â'i awdurdodau cyfagos ac fe gynhyrchwyd nifer o ddarnau o sylfaen dystiolaeth ar y cyd, gyda rhagor o gydymchwil wedi'i gomisiynu ar hyn o bryd. Bydd holl Awdurdodau cyfagos yn mynychu panel rhanddeiliaid allweddol Sir Benfro ac yn cynghori ar y CDLl eginol. Bydd Datganiadau Tir Cyffredin yn cael eu llunio gydag Awdurdodau cyfagos ar adegau allweddol ym mhroses Adolygu'r Cynllun.

## Cyd-destun lleol - Sir Benfro

- Poblogaeth sy'n heneiddio yw un Sir Benfro, ac mae disgwyl i'r boblogaeth dros 65 gynyddu 32% rhwng 2017 a 2033.[10]
- Y rhagolwg yw y bydd grŵp oedran 0-15 Sir Benfro'n lleihau 2% rhwng 2017 a 2033.
- Mae cyfraddau cynhyrchiant Sir Benfro'n gymharol isel fesul swydd o gymharu â gyda gweddill Bae Abertawe, Cymru neu weddill y DU. Yn y tymor canolig i hir mae penderfyniad refferendwm Prallan yn debygol o arwain at newidiadau ym mherfformiad yr economi. Amcangyfrif Adroddiad Ysgol Economeg Llundain[11] yw y bydd effaith o -1.1% i -1.8% ar GYC Sir Benfro.
- Mae economi Sir Benfro'n gymharol hunangynhwysol; sef bod y rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn Sir Benfro'n gweithio yn Sir Benfro.
- Mae twristiaeth yn fwyfwy pwysig i'n heconomi, yn cyflogi 10,176 CLIA yn uniongyrchol (2015) a chyfanswm gwariant ymwelwyr o £585 miliwn (cynnydd o £515.54 miliwn yn 2012).
- Yn gyfochrog â'r cynnydd mewn ynni adnewyddadwy, yn y pen draw gallem ddisgwyl i'r sector petrocemegol, a'i bwysigrwydd fel cyflogwr, ddirywio er bod buddsoddiad ychwanegol yn yr arfaeth yn y tymor canolig.
- Mae aelwydydd yn tueddu i fod yn llai nag y buont. Bydd gan hyn oblygiadau i nifer y tai a mathau o dai sydd ar bobl eu hangen.

[10] Gwelwch Astudiaeth Ddemograffig Sir Benfro (Ymyl Dadansoddeg) Sylfaen dystiolaeth CDLl
[11] Local Economic Effects of Brexit, LSE 2017 http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/brexit10.pdf

- Mae car neu fan ar gael i 82% o gartrefi Sir Benfro, sy'n cymharu â 77% fel cyfartaledd Cymru.[12]
- Mae newid yn yr hinsawdd yn peri tymereddau byd-eang uwch. Er bod maint y newid tebygol yn dal yn ansicr, gallwn ddisgwyl gweld cynnydd yn lefel y môr, tywydd cynhesach yn gyffredinol a mwy o law yn y gaeaf a thywydd mwy eithafol.
- Yn y pen draw gallwn ddisgwyl parhad y duedd oddi wrth gynhyrchu trydan o danwydd ffosiledig tuag at ffynonellau ynni mwy cynaliadwy.
- Yn ôl adroddiad Cyflwr Bywyd Gwyllt 2016 yn Sir Benfro, mae mwyafrif y nodweddion a aseswyd mewn cyflwr gwael neu weddol ac mai'r duedd at ei gilydd yw dal i ddirywio[13].
- Cynyddu mae'r duedd o anghydraddoldeb o ran incwm a chyfoeth.
- Mae angen buddsoddi mewn gwella seilwaith band eang a thechnoleg symudol.
- Mae'r sector amaethyddol yn wynebu newid strwythurol gyda thwf cynyddol unedau ffermio mwy. Yr heriau mwyaf yw dynodi Parthau Perygl Nitradau (PPN), TB mewn gwartheg, colli cymorthdaliadau i ffermydd (UE) a newidiadau mewn marchnadoedd byd-eang.
- Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda'n trawsnewid ei wasanaethau clinigol – bydd gan hyn oblygiadau i sut gaiff gwasanaethau eu cyflenwi yn Sir Benfro.

### Materion a Sbardunau Allweddol

1.16 Nodwyd y materion a sbardunau allweddol canlynol ar gyfer y CDLl. Dylanwadwyd ar y rhain gan dystiolaeth o Adroddiad Adolygiad y Cyngor, adolygiad o ddogfennau allweddol ac ymwneud â rhanddeiliaid.[14] Cânt eu dosbarthu dan y penawdau a ddynodwyd yng Nghynllun Ffyniant Sir Benfro (2018).

### BYW A GWEITHIO

- Yn 2033 bydd aelwydydd yn llai a bydd mwy o aelwydydd nag sydd heddiw, gan beri bod angen tai ychwanegol.
- Yn 2033 bydd poblogaeth Sir Benfro'n heneiddio, gyda mwy o bobl dros 65 oed a llai o bobl ifanc. Bydd hyn yn peri bod angen mwy o dai addas ar gyfer pobl hŷn.
- Mae angen rhoi sylw i bobl ifanc yn mudo allan trwy gyflenwi tai, creu cyflogaeth a bywiogi canol trefi.
- Bydd yr angen yn parhau am lawer o dai fforddiadwy.

---

[12] Cyfrifiad 2011. Yn ôl tiriogaeth awdurdodau lleol.

[13] Aseswyd 23 nodwedd. 16 mewn cyflwr gwael neu weddol, ond mae'r cyfeiriad hefyd yn bwysig. 7 yn dirywio; 8 sefydlog; 5 yn gwella; 3 gyda data anghyflawn. O'r rheiny a chafodd eu dynodi'n sefydlog, roedd 5 yn sefydlog mewn cyflwr gwael neu weddol. Dim ond 2 sy'n sefydlog ac mewn cyflwr da.

[14] Gwelwch yr Adroddiadau ar Achlysuron Ymgynghori â'r Cyhoedd https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdll2-sail-dystiolaeth

- Bydd yr angen yn parhau am leiniau Sipsiwn Crwydrol.
- Yn hanesyddol, ni ddatblygwyd rhai Safleoedd Tai Strategol mawr ac mae'r farchnad dai leol yn fwy tebygol o gynnig safleoedd bach a chymedrol.
- Yn hanesyddol, mae cyflawni rhai Safleoedd Cyflogaeth Strategol mawr wedi bod yn araf.
- Mae angen sicrhau bod safleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu cynnig i gynorthwyo cyflogaeth mewn cymunedau.
- Dylai maint safleoedd cyflogaeth fod yn briodol i gymunedau.
- Mae gweithio ystwyth a thechnoleg newydd yn creu cyfleoedd cyflogaeth newydd.
- Byddwn yn rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe a Bargen Ddinesig Bae Abertawe, fydd yn creu cyfleoedd gwaith.
- Mae Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau hefyd yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth.

## CYMUNEDAU DYFEISGAR

- Fe all maint a lleoliad datblygiadau tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol i gyd effeithio ar y Gymraeg.
- Mae angen cydnabod gwerth iaith, treftadaeth, diwylliant tirwedd a threfwedd wrth greu ymdeimlad o le.
- Dylid darparu isadeiledd priodol trwy ddatblygiad newydd i gynnal cymunedau.
- Mae mynediad at ddigon o wasanaethau a chyfleusterau yn helpu cynorthwyo a chynnal cymunedau cryfion.

## MYND I'R AFAEL Â GWLEDIGRWYDD

- Mae canol y rhan fwyaf o drefi mewn trafferth gyda chyfraddau gwacter uwch na'r cyfartaledd a bydd angen neilltuo llai ar gyfer manwerthu nag yn y gorffennol.
- Fe all llai o gyfleusterau yng nghefn gwlad ei gwneud yn anoddach i gymunedau gael gwasanaethau.
- Mae mynediad at gynlluniau cludiant cynaliadwy'n allweddol i gynnal cymunedau cysylltiedig iach.
- O ran mwynau, dechreuwyd edrych yn wahanol ar neilltuo tir ar gyfer tywod a gro yn Sir Benfro, Sir Gâr a Cheredigion, i gynorthwyo cynhyrchu llai o fewn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.
- Bydd effeithiau Prallan yn arbennig o fawr ar ein cymunedau gwledig ac, efallai, y bydd gofyn iddynt arallgyfeirio mwy er mwyn aros yn hyfyw.

## GWARCHOD EIN HAMGYLCHEDD

- Mae mwyafrif ein bywyd gwyllt a chynefinoedd mewn cyflwr cymedrol neu wael ar waethaf ymdrechion cadwraeth ac mae angen gwarchod bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.
- Mae llety ymwelwyr yn newid ac mae angen i ni ystyried hyn, gan gynnwys ble mae modd lleoli safleoedd newydd neu ymestyn rhai presennol.
- Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gymunedau (yn enwedig rhai arfordirol neu lle mae perygl llifogydd) a'r amgylchedd.
- Mae angen gwarchod tir agored a seilwaith gwyrdd i gynorthwyo ffyniant cymunedau.
- Fe all troi datblygiad i fannau lle mae rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus a chynhwysedd gwaith trin carthion ar gael gynorthwyo gwarchod yr amgylchedd.
- Parchu buddiannau gerddi a'u cyfraniad at fywyd gwyllt, cynefinoedd, bioamrywiaeth a naws am le a, lle bo modd, sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn nhrwch datblygiadau tai newydd.
- Sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei gydnabod a'i amddiffyn, ei warchod a'i wella.
- Dylid cefnogi defnyddio ynni adnewyddadwy'n gynaliadwy a mynediad i'r grid mewn datblygiadau tai.
- Dwysáu arferion amaethyddol ac effaith hynny ar yr amgylchedd gan gynnwys Parthau Perygl Nitradau.
- Dylem ganolbwyntio ar atal gwastraff a, phan nad oes modd gwneud hynny, ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill cynhyrchion gwastraff.
- Fe all systemau draenio trefol cynaliadwy gynorthwyo gwarchod ein hamgylchedd.

## 2. Gweledigaeth ac Amcanion

2.1 Mae canllawiau a pholisi Llywodraeth Cymru'n gofyn bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn mynegi gweledigaeth a strategaeth hirdymor gryno. Yr awgrym yw y dylai'r weledigaeth hon fod yn eglur, wedi'i chytuno gan y gymuned a rhanddeiliaid ac yn nodi sut gaiff lleoedd eu datblygu, eu newid neu eu gwarchod.[15]

2.2 Datblygwyd Drafft y Weledigaeth yn dilyn trafodaethau gyda Chynghorwyr Sir a Rhanddeiliaid Allweddol mewn gweithdai ym mis Ebrill 2018. Yna mireiniwyd mwy arni'n dilyn ymgynghori anffurfiol â'r cyhoedd rhwng Gorffennaf a Medi 2018 a thrwy'r broses AoG/AAS barhaol.[16] Mae'r Weledigaeth hefyd yn adlewyrchu elfennau allweddol Cynllun Ffyniant Sir Benfro (2018) a rhai o ddylanwadau Cynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008); fodd bynnag, rhoddwyd llai o bwyslais ar y ddogfen hon o dderbyn ei hoed. Ystyriwyd cysondeb y Weledigaeth a'r Amcanion ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau Cynllun Ffyniant Sir Benfro.[17]

### Gweledigaeth y CDLl

**Yn 2033, mae Sir Benfro'n fan gyda chymunedau dyfeisgar cryfion, lle caiff heriau gwledigrwydd a newid yn yr hinsawdd eu trin yn llwyddiannus. Mae ymdeimlad neilltuol o le'n bodoli ar sail ei thirwedd naturiol a'i hetifeddiaeth ieithyddol, ddiwylliannol ac adeiledig. Mae cartrefi ar gael i bawb ac mae economi cryf yn galluogi i bobl o bob oed fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir. Mae cyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig â busnesau newydd, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a glas a sectorau newydd sy'n deillio o gyfleoedd strategol Aber Cleddau a chysylltiadau ag Iwerddon yn cael eu hyrwyddo. Mae canol trefi'n fannau bywiog gyda phob math o ddefnyddiau ac mae isadeiledd allweddol yn cynnal datblygiad. Ledled y Sir mae seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu cyfoethogi gydag amgylcheddau iach a hygyrch ar gael i bobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd.**

[15] Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9 (Adran 2.2.1) a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru – Argraffiad 2 – Awst 2015, Adran 6.1.1.

[16] Mae adroddiadau ar Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Ymgynghori â'r Cyhoedd ar y Dewisiadau Strategol i'w cael yn: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdll2-sail-dystiolaeth

[17] Gwelwch Drafft, Materion, Gweledigaeth ac Amcanion 2018 (Atodiadau) yn https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

## Amcanion y CDLl

2.3 Mae polisi Llywodraeth Cymru'n awgrymu y dylai CDLl fynegi prif amcanion y cynllun yn eglur, ynghyd â chyfeiriad o newid yn fras.[18]

2.4 Mae'n bwysig bod Amcanion y CDLl yn adlewyrchu Gweledigaeth y Cynllun ac yn amlinellu sut fydd y materion a nodwyd fel rhai sy'n wynebu'r ardal yn cael sylw drwy'r CDLl. Datblygwyd Drafft yr Amcanion ar y cyd â Chynghorwyr Sir a Rhanddeiliaid Allweddol mewn gweithdai ym mis Ebrill 2018. Fel gyda Drafft y Weledigaeth, mireiniwyd mwy ar hyn yn dilyn ymgynghori anffurfiol â'r cyhoedd rhwng Gorffennaf a Medi 2018 a thrwy'r broses AoG/AAS barhaol.

**A) Lliniaru ac ymateb i her Newid yn yr Hinsawdd.**

**B) Cyflawni datblygiad o safon lle mae creu lle'n cael ei gynorthwyo gan ddylunio cynaliadwy sy'n ymateb yn briodol i etifeddiaeth ddiwylliannol a threftadaeth adeiledig, tirwedd a threfwedd.**

**C) Cynnal a gwella'r economi gwledig a threfol trwy gynorthwyo busnesau newydd, arallgyfeirio gwledig, newid arferion amaethyddol, yr economi ymwelwyr ac ehangu Busnesau Bach a Chanolig**

**D) Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi gyda chymorth cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol.**

**E) Adeiladu ar leoliad strategol y Sir o ran datblygu ynni gwyrdd, morol a chysylltiedig â phorthladdoedd**

**F) Gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg.**

**G) Cefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau ynghanol trefi i gynorthwyo adfywiad.**

**H) Hyrwyddo amgylcheddau iach a hygyrch i bobl a bywyd gwyllt trwy warchod a chyflawni seilwaith gwyrdd.**

**I) Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau i isadeiledd[19] a chyfleusterau cymunedol a chyfeirio datblygiad i fannau cynaliadwy.**

**J) Gwarchod a gwella amgylchedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd y Sir.**

**K) Osgoi creu gwastraff a sicrhau defnyddio adnoddau'n gyfrifol.**

[18] Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) paragraff 2.2.1

[19] Sylwch fod seilwaith yn cynnwys darparu technoleg symudol a band eang, gwelliannau cludiant a chynhwysedd carthffosydd.


# 3. Arfarnu Dewisiadau Twf Strategol

## Trosolwg

3.1 Rhaid i Adolygiad y CDLl ystyried faint o dai ychwanegol sydd eu hangen rhwng 2017 a 2033. Fel rhan o'r ymgynghori ar y Dewisiadau Strategol yn gynharach yn 2018, nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau twf ac fe'u trafodwyd gyda Rhanddeiliaid. Mae'r adran isod yn cyflwyno crynodeb o'r dewisiadau hynny ac yn nodi'r Dewis a Ffefrir.

3.2 Cyhoeddwyd papur technegol ar wahân fel rhan o sylfaen dystiolaeth y CDLl yn dangos poblogaeth estynedig a newid mewn aelwydydd hyd at 2033. Hwn yw adroddiad Edge Analytics 'Rhagolygon Demograffig Sir Benfro Mehefin 2018'. Mae'r ddogfen yn rhoi disgrifiad o broffil poblogaeth ac aelwydydd yr ardal, gan gynnwys y cydrannau sy'n sail i newid poblogaeth. Mae'n archwilio faint o dai ychwanegol y gellid bod eu hangen yn ystod cyfnod y Cynllun 2017-2033, mewn gwahanol senarios. Caiff 7 o wahanol ddewisiadau tai ychwanegol eu cyflwyno. Seiliwyd y dewisiadau hyn ar amrywiaeth o wahanol dybiaethau ynghylch mudo ac maent hefyd yn amlinellu senarios yn ôl polisi.

Ffigur 1: Rhagamcaniadau Twf Poblogaeth a Chartrefi 2017-2033




### Dewis 1: Senario Llywodraeth Cymru 2014 (ar sail newydd)

3.3 Mae'r Dewis hwn yn cyflwyno rhagamcaniad twf Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro, wedi'i newid i adlewyrchu'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn diweddaraf, sef 2016. Er mwyn ymateb i'r newidiadau a nodwyd, mae'n awgrymu y byddai angen i Sir Benfro ddarparu **196** o gartrefi'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod cyfnod y cynllun newydd. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio ffigurau mudo seiliedig ar y 5 mlynedd flaenorol fel rhan o'r rhagamcaniad. Mae 196 o gartrefi'n sylweddol is na'r nifer yn y CDLl cyfredol, sy'n darparu 572 o gartrefi'r flwyddyn.

Mae hyn hefyd yn sylweddol is na'r nifer a godwyd ar gyfartaledd yn ystod y 5 a 10 mlynedd diwethaf yn Sir Benfro.

**Dewis 2: Senario 10 Mlynedd PG**

3.4 Senario tuedd ddemograffig yw hwn a ddatblygwyd trwy ddefnyddio tybiaethau mudo seiliedig ar hanes mudo'r deng mlynedd diwethaf (yn hytrach na hanes mudo'r 5 mlynedd flaenorol sydd yn rhagamcaniad LlC). Er mwyn ymateb i'r newidiadau a nodwyd, mae'n awgrymu y byddai angen i Sir Benfro ddarparu **340** o gartrefi'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod cyfnod y cynllun newydd. Mae newid poblogaeth yn uwch nag amcangyfrif senario LlC 2014 (ar sail newydd) sy'n cael ei sbarduno gan fwy o fudo blynyddol clir i'r ardal a llai o effaith flynyddol newid naturiol. Mae hyn yn sylweddol is nag yn y CDLl cyfredol, sy'n darparu 572 o gartrefi'r flwyddyn ac mae hefyd yn sylweddol is na'r nifer a godwyd ar gyfartaledd yn ystod y 5 a 10 mlynedd diwethaf yn Sir Benfro.

**Dewis 3: Senario Hirdymor PG**

3.5 Senario tuedd ddemograffig yw hon a ddatblygwyd trwy ddefnyddio tybiaethau mudo seiliedig ar hanes mudo'r pymtheng mlynedd diwethaf. Er mwyn ymateb i'r newidiadau a nodwyd, mae'n awgrymu y byddai angen i Sir Benfro ddarparu **408** o gartrefi'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod cyfnod y cynllun newydd. Mae newid poblogaeth yn uwch nag amcangyfrif senario LlC 2014 (ar sail newydd) sy'n cael ei sbarduno gan fwy o fudo blynyddol clir i'r ardal a llai o effaith flynyddol newid naturiol. O'r senarios demograffig, y senario hwn sy'n amcangyfrif y gyfradd twf poblogaeth uchaf.

**Dewis 4: Senario'n Dilyn Cartrefi (Cyfartaledd 5 mlynedd)**

3.6 Senario'n dilyn cartrefi yw hwn a ddatblygwyd lle bo twf poblogaeth yn cael ei benderfynu gan y twf blynyddol yn nifer y cartrefi sy'n deillio o gyfartaledd 5 mlynedd hanesyddol. Caiff twf blynyddol o **443** o gartrefi'r flwyddyn ei gymhwyso ymhob blwyddyn o gyfnod y rhagolwg, seiliedig ar ddata codi tai'r pum mlynedd diwethaf. Mae newid poblogaeth yn uwch nag amcangyfrif senario LlC 2014 (ar sail newydd) sy'n cael ei sbarduno gan fwy o fudo blynyddol clir i'r ardal a llai o effaith flynyddol newid naturiol.

**Dewis 5: Senario'n Dilyn Cartrefi (Cyfartaledd 10 mlynedd)**

3.7 Senario'n dilyn cartrefi yw hwn a ddatblygwyd lle bo twf poblogaeth yn cael ei benderfynu gan y twf blynyddol yn nifer y cartrefi sy'n deillio o gyfartaledd 10 mlynedd hanesyddol. Caiff twf blynyddol o **416** o gartrefi'r flwyddyn ei gymhwyso ymhob blwyddyn o gyfnod y rhagolwg, seiliedig ar ddata codi tai'r pum mlynedd diwethaf. Mae newid poblogaeth yn uwch nag amcangyfrif senario LlC 2014 (ar sail newydd) sy'n cael ei sbarduno gan fwy o fudo blynyddol clir i'r ardal a llai o effaith flynyddol newid naturiol. Mae hyn ychydig yn is nag yn y CDLl cyfredol, sy'n darparu 572 o gartrefi'r flwyddyn.

**Dewis 6: Senario'n Dilyn Cartrefi (CDLl Cyfredol)**

3.8 Senario'n dilyn cartrefi yw hwn a ddatblygwyd lle bo twf poblogaeth yn cael ei benderfynu gan darged tai blynyddol y CDLl (2013). Caiff twf blynyddol o **572** o gartrefi'r flwyddyn ei gymhwyso ymhob blwyddyn o gyfnod y rhagolwg. Mae newid poblogaeth yn uwch nag amcangyfrif senario LlC 2014 (ar sail newydd) sy'n cael ei sbarduno gan fwy o fudo blynyddol clir i'r ardal a llai o effaith flynyddol newid naturiol.

**Dewis 7: Senario Dim Mudo (Dim Clir)**

3.9 Senario damcaniaethol yw hwn yn profi sefyllfa o ddim mudo clir. Mae mudo i mewn ac allan yn mantoli dros gyfnod y rhagolwg, fel nad oes dim mudo clir. Yn ymarferol, y senario hwn fydd yr 'achos gwaethaf' gan ddibynnu ar newid naturiol i beri twf yn y dyfodol. Ystyrir bod y senario hwn yn pontio'r bwlch rhwng y senarios demograffig a'r rhai'n dilyn cartrefi a brofwyd yn gynharach. Mae'n annhebygol iawn na fydd dim mudo clir yn Sir Benfro wrth edrych ar ddata tueddiadau'r gorffennol. Yn y senario hwn mae angen twf blynyddol o **6** o gartrefi'r flwyddyn.

## Arfarnu Dewisiadau Twf gyferbyn ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

3.10 Aseswyd pob un o'r Dewisiadau Twf gyferbyn ag amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae manylion llawn ar gael yn ein hadroddiad cefndir technegol – Arfarniad o Gynaliadwyedd y Strategaeth Ddewisol. Mae crynodeb yma.

3.11 Byddai pob un o'r Dewisiadau Twf yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni rhai o amcanion cymdeithasol yr AoG, er enghraifft y rhai sy'n cynnwys darparu Tai Fforddiadwy a chynorthwyo cymunedau cydlynol. O ran amcanion amgylcheddol yr AoG ynghylch defnyddio adnoddau, gwarchod ansawdd pridd, lleihau llygredd a gwarchod ansawdd dŵr, y rhai'n awgrymu llai o dai a sgoriodd orau. At ei gilydd, Dewis 1 (rhagamcaniad Llywodraeth Cymru 2014 ar sail newydd) oedd y Dewis mwyaf cadarnhaol o'i asesu gyferbyn ag amcanion yr AoG.

## Arfarnu Dewisiadau Twf gan Randdeiliaid

3.12 Ystyriwyd y Dewisiadau Twf yn fanwl gydag amrywiaeth o Randdeiliaid, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau rhwng Gorffennaf a Medi 2018. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ysgrifenedig anffurfiol yn ogystal â gweithdai. Caiff crynodeb o'r ymateb a gafwyd ei gyhoeddi fel rhan o sylfaen dystiolaeth y CDLl.[20]

3.13 Mynegwyd amrywiaeth o sylwadau, ond roedd cytundeb eang ynghylch cefnogi darparu mwy o dai nag yn rhagamcaniadau LlC a diwallu'r angen ar sail asesiad o dueddiadau mudo tymor hwy (15 mlynedd) ac yn unol â chyfraddau adeiladu ar gyfartaledd yn ystod y 5-10 mlynedd diwethaf. Nododd un sylwebydd

[20] Gwelwch yr Adroddiadau ar Achlysuron Ymgynghori â'r Cyhoedd: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdll2-sail-dystiolaeth

yn y grŵp rhanddeiliaid fod cau Purfa Aberdaugleddau yn 2014 yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar fudo allan a maint y boblogaeth, o dderbyn ei sefyllfa fel cyflogwr lleol mawr, gan ddweud ei bod, felly, yn ddilys defnyddio cyfnod hwy i asesu mudo. Mae ystyried tuedd 15 mlynedd hefyd yn golygu cynnwys cyfnod cyn y dirwasgiad, sy'n dangos sut oedd y farchnad dai'n ymateb ar adeg pan oedd mwy o dwf economaidd. Mynegodd grwpiau yn y sesiynau'r farn y byddai cyflawni uwchlaw rhagamcaniadau LlC ac yn unol â thueddiadau mudo tymor hwy'n cynorthwyo'r diwydiant adeiladu lleol, yn galluogi cyflenwi mwy o dai fforddiadwy, yn creu proffil poblogaeth mwy cytbwys ac yn rhoi mwy o gyfle i bobl ifanc aros yn eu cymunedau.

## Y Dewis Twf a Ffefrir

3.14 Seiliwyd y Dewis Twf a Ffefrir ar gyfuniad o'r senario tuedd fudo 15 mlynedd (Senario Hirdymor PG) sy'n awgrymu bod angen 408 o gartrefi'r flwyddyn a'r ddau senario cyfradd adeiladu sy'n dangos cyflenwi 416 o gartrefi'r flwyddyn yn ystod y 10 mlynedd diwethaf a 447 o gartrefi'r flwyddyn yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

3.15 Mae'r Awdurdod yn ystyried bod hyn o dwf, er bod hynny'n uwch na rhagamcaniadau Llywodraeth Cymru, yn briodol am y rhesymau canlynol:

- Mae modd ei gyflawni (yn unol â chyfraddau adeiladu hanesyddol).
- Mae'n adlewyrchu tueddiadau mudo tymor hwy, sy'n briodol o dderbyn cau un o gyflogwyr mawr Sir Benfro yn 2014.
- Mae'n dangos sut allai'r farchnad dai ymateb os yw twf economaidd yn fwy nag a ragwelwyd (mudo wedi'i seilio'n rhannol ar y cyfnod cyn y dirwasgiad).
- Bydd yn cynorthwyo diwallu'r angen sylweddol am dai fforddiadwy sydd wedi ôl-gronni a bydd yn gwneud cyfraniad mwy na dewis twf seiliedig yn unig ar ragamcaniadau LlC.
- Bydd yn helpu'r diwydiant adeiladu lleol a'r economi ehangach a bydd yn gwneud cyfraniad mwy na dewis twf seiliedig yn unig ar ragamcaniadau LlC.
- Bydd yn creu proffil poblogaeth mwy cytbwys na'r hyn a ragwelir gyda llai o dwf.
- Mae'n sgorio'n well na'r dewisiadau twf mwyaf a aseswyd o ran yr Arfarniad o Gynaliadwyedd trwy roi mwy o gyfleoedd i warchod ansawdd pridd, lleihau llygredd a gwarchod ansawdd dŵr.

Ar sail y dystiolaeth ac ymateb Rhanddeiliaid nodwyd Dewis Twf a Ffefrir i godi 425 o gartrefi'r flwyddyn.
Byddai hyn yn darparu 6800 o gartrefi yn ystod y cyfnod 2017-2033.

# 4. Arfarnu Dewisiadau Gofodol

## Trosolwg

4.1 Yn ogystal â nodi'r twf at ei gilydd sydd ei angen yn ystod cyfnod y cynllun, rhaid i CDLl2 gynnig strategaeth ofodol eglur o ble dylai'r datblygiad hwn ddigwydd yn y Sir.

4.2 Fel rhan o ymgynghori anffurfiol y Cyngor ar Ddewisiadau Strategol, cyflwynwyd agwedd at hierarchaeth anheddau, 3 o ddewisiadau gofodol a dewisiadau penodol ar gyfer ardaloedd gwledig, at ymgynghori.[21] Mae crynodeb o'r dewisiadau ymgynghori hyn isod.

## Hierarchaeth Anheddau

4.3 Er gwybodaeth, cyflwynwyd drafft o Hierarchaeth Anheddau seiliedig ar leoliad a dosbarthiad gwasanaethau ar draws anheddau a phoblogaeth yn y sir. Gwnaed adolygiad o gyfleusterau anheddau yn 2017. Fel rhan o'r ymgynghori ar Ddewisiadau Strategol, ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ar egwyddor defnyddio Hierarchaeth Anheddau a gofynnwyd pa wasanaethu oedd yn bwysig wrth ei diffinio. Bu sgyrsiau manwl yn trafod a oedd angen newid unrhyw elfennau sgorio. At ei gilydd cefnogwyd defnyddio Hierarchaeth Anheddau fel dull o ddosbarthu twf. Mae'r ymateb i'r ymgynghori wedi cynorthwyo llunio Hierarchaeth Anheddau ddiwygiedig fel rhan o'r Strategaeth Ddewisol, gyda mwy o bwyslais ar y gwasanaethau hynny a nododd rhanddeiliaid fel y rhai mwyaf arwyddocaol o ran lleihau'r angen i deithio a chynorthwyo mannau cynaliadwy.

## Dewisiadau Gofodol

4.4 Cyflwynwyd y 3 Dewis Gofodol canlynol fel sail i ddosbarthu safleoedd tai mwy (yn nodweddiadol, neilltuo safleoedd o fwy na 5 o dai):

**Dewis 1: Canolbwynt Trefol – Tir ar gyfer tai o fewn ac ar ymyl y Prif Drefi (70%) ynghyd â neilltuo rhywfaint o dir o fewn ac ar ymyl anheddau gwledig (30%)**

- Fe all y Dewis atgyfnerthu a chynyddu swyddogaeth y Prif Drefi (a gafodd yr enw trefi ffocws o'r blaen), gan gyfeirio datblygiad i fannau hygyrch lle mae mwyafrif y gwasanaethau.
- Bydd y Dewis yn lleihau'r angen i deithio ond gallai arwain at fwy o dagfeydd mewn cylchoedd trefol ac o'u cwmpas.
- Byddai llygredd, sŵn a chynhyrchu gwastraff yn dwysáu o gwmpas cylchoedd trefol, gyda phwysau anghymesur ar seilwaith cyfathrebu a gwasanaethau. Fodd bynnag, bydd casglu gwastraff a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus eraill yn fwy darbodus.

[21] Mae'r ddogfen ymgynghori lawn i'w chael yma: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

**Dewis 2: Canolbwynt Seiliedig ar Wasanaethau – Neilltuo tir mewn anheddau yn ôl faint o wasanaethau sydd ynddynt ar hyn o bryd – mewn cylchoedd trefol / prif drefi (60%) ac anheddau gwledig unigol (40%) gyda gwasanaethau digonol**

- Byddai hyn yn troi llai o dwf i'r Prif Drefi ac yn cynyddu'r angen i deithio ar gyfer cyfleusterau hamdden, gofal iechyd ac adloniant gan gynyddu nifer y teithiau mewn ceir a thagfeydd yn y Prif Drefi. Fodd bynnag, mae'n caniatáu datblygu mwy mewn Trefi Gwledig, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu na Dewis 1, a allai gynorthwyo cynnal gwasanaethau lleol presennol.
- Mae lleoli 40% o ddatblygiad mewn anheddau gwledig yn golygu ei bod yn fwy tebygol y byddai datblygiad yn gymesur â maint a graddfa'r anheddiad. Mae datblygu yng nghefn gwlad yn fwy tebygol o gymryd tir glas.

**Dewis 3: Canolbwyntio ar Gymunedau Gwledig – Neilltuo tir ar draws amrywiaeth o anheddau, gan gynnwys Prif Drefi (50%) ac anheddau gwledig (50%), gyda'r gallu i gydio anheddau sydd, gyda'i gilydd, â gwasanaethau cynaliadwy**

- Gallai'r angen am fwy o dwf yng nghefn gwlad olygu rhai datblygiadau o angenrheidrwydd yn gymesur â maint a graddfa'r anheddiad.
- Mae'n debygol y bydd angen safleoedd tir glas gyda'r dewis hwn.
- Byddai datblygiadau mawr mewn Trefi Gwledig, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu'n golygu mai dim ond y gwasanaethau lleiaf fyddai ar gael i drigolion newydd.
- Gallai'r dewis hwn gynorthwyo cynnal gwasanaethau presennol a byddai'n caniatáu mynediad poblogaethau gwledig a threfol at wasanaethau lleol. Byddai'r dewis hwn yn debygol o beri mwy o deithiau mewn ceir.

## Dewisiadau Gwledig

4.5 Cyflwynwyd amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer rheoli datblygiad yng nghefn gwlad. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio clystyrau anheddau, defnyddio ffiniau anheddiad a hyrwyddo mewnlenwi a llyfnu. Hefyd, trafodwyd y math o dai sydd fwyaf priodol i anheddau gydag ychydig iawn o wasanaethau (sy'n cael eu galw'n Bentrefi Lleol) – naill ai Tai Fforddiadwy neu Dai'r Farchnad Agored.

## Arfarnu Dewisiadau Gofodol gyferbyn â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

4.6 Aseswyd pob un o'r Dewisiadau Gofodol gyferbyn ag amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae manylion llawn i'w cael yn ein hadroddiad cefndir technegol – Arfarniad o Gynaliadwyedd y Strategaeth Ddewisol. Mae crynodeb yma.

4.7 Mae Dewis 1 yn gryf o blaid datblygu trefol yn y Prif Drefi (Canolbwyntiau gynt) sydd â mantais defnyddio tir ac adnoddau'n fwy effeithlon. Bydd canolbwyntio datblygiad newydd mewn cylchoedd trefol ochr yn ochr â phoblogaethau presennol yn lleihau angen llawer o bobl i deithio ond gall arwain at fwy o dagfeydd yn y cylchoedd trefol hyn ac o'u cwmpas. Byddai llygredd, sŵn a chynhyrchu gwastraff yn dwysáu o gwmpas cylchoedd trefol, a byddai pwysau

anghymesur ar seilwaith cyfathrebu a gwasanaethau. Fodd bynnag, bydd casglu gwastraff yn fwy darbodus.

4.8 At ei gilydd, byddai Dewis 2 yn troi llai o'r twf llawn i'r Prif Drefi (Canolbwyntiau gynt) ac yn cynyddu'r angen i deithio er mwyn cael mynediad at gyfleusterau hamdden, gofal iechyd ac adloniant. Tra bo dewisiadau cludiant cynaliadwy'n debygol o fod ar gael i bobl, byddai hyn yn cynyddu nifer y teithiau mewn ceir a thagfeydd yn y Prif Drefi. Fodd bynnag, mae'n caniatáu datblygu mwy yn y Trefi Gwledig, Canolfannau Gwasanaeth a'r Pentrefi Gwasanaethu, a allai gynorthwyo cynnal gwasanaethau lleol presennol.

4.9 Wrth gloriannu'r effeithiau tebygol at ei gilydd, cadarnhaol a negyddol, mae'n dangos bod Dewis 2 yn cael fymryn mwy o ganlyniadau negyddol ar amcanion yr AoG na Dewis 1.

4.10 Mae Dewis 3 yn cynnig rhaniad cytbwys o 50% o ddatblygu trefol a 50% o ddatblygu gwledig (i Drefi Gwledig, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu). Mae hyn yn debygol o arwain at ddosbarthu mwy ar ddatblygiad. Tra byddai datblygu yn y Trefi Gwledig, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu'n golygu mai prin fyddai'r gwasanaethau ar gael i drigolion newydd, gallai'r dewis hwn gynorthwyo cynnal gwasanaethau presennol a chaniatáu mynediad at wasanaethau lleol i boblogaethau gwledig a threfol fel ei gilydd. Mae hyn yn golygu mwy o gymorth i gymunedau gwledig gan beri cynnydd cymharol mewn poblogaethau gwledig. At ei gilydd, byddai'r dewis hwn yn debygol o greu mwy o deithiau mewn ceir.

4.11 Mae'r cloriannu ansoddol at ei gilydd yn dangos nad yw Dewis 3 yn sgorio gystal â Dewis 1 na Dewis 2 mewn cysylltiad â chanlyniadau cadarnhaol o ran amcanion yr AoG, a bod ganddo fwy o ganlyniadau negyddol.

## Casgliadau Dewisiadau Gofodol a Ffefrir

4.12 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i syniad Hierarchaeth Anheddau seiliedig ar ddarparu gwasanaethau. Newidiwyd rhai sylwadau manwl ar yr agweddau sgorio a'u porthi i Arolwg Cyfleusterau Gwledig a Hierarchaeth Anheddau addasedig o fewn y Dewis a Ffefrir yn Adran 5. Nod yr adolygiadau hyn yw sicrhau bod gwasanaethau sy'n cyfrannu fwyaf at gynaliadwyedd lleoliad yn cael pwysau priodol.

4.13 Cafwyd amrywiaeth o farnau ar y rhaniad gofodol y dylai'r Cynllun ei gyflawni at ei gilydd, gyda rhanddeiliaid yn nodi buddiannau ac anfanteision pob dewis. Ymhlith materion i'w hystyried oedd cynnal cymunedau gwledig, effeithiau ar y Gymraeg, rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo adfywio trefi, cysylltu cyflogaeth â chyflenwi tai, rhoi blaenoriaeth i dir a ddatblygwyd o'r blaen, cyflenwi tai mewn mannau cynaliadwy, effeithiau ar dirwedd, effeithiau ar gostau cyflenwi gwasanaethau ar gyrff gwasanaethau cyhoeddus a newid yn yr hinsawdd oherwydd allyriadau ceir. Arddengys tystiolaeth o'r Adroddiad Arolwg fod y strategaeth bresennol o 60% Trefol a 40% Gwledig yn cael ei ddarparu. Mae tystiolaeth yn yr Adroddiad Arolwg yn awgrymu fod y dull hwn ar y cyfan wedi cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig wrth gefnogi twf yn y ddwy ardal, gydag ond gwasanaethau cyfyngedig wedi'u colli yn yr aneddiadau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau.

4.14 **At ei gilydd, mae cyflawni Dewis 2 (60% Trefol a 40% Gwledig) yn debygol o roi cymorth i gymunedau trefol a gwledig fel ei gilydd ond gyda mwy o bwyslais ar y mannau hynny gyda gwell mynediad at wasanaethau.**

4.15 O ran dewisiadau polisi yn yr ardaloedd gwledig, roedd cefnogaeth gref gan holl grwpiau i ddefnyddio ffiniau anheddiad er mwyn eglurder, er bod nifer wedi sôn am yr angen i adlewyrchu nodweddion penodol unrhyw anheddiad. Roedd cefnogaeth hefyd i agwedd fwy hael at ddiffinio ffiniau anheddiad a chreu mwy o gyfleoedd i fewnlenwi a llyfnu ynddynt.

4.16 Roedd cefnogaeth helaeth i glystyrau fel ffordd o wahaniaethu rhwng yr anheddau ar raddfa Pentrefi Lleol a'r posibilrwydd o gynnwys gwahanol agweddau at bolisi ar gyfer y Pentrefi Lleol hynny a nodwyd fel rhai mwy cynaliadwy.

4.17 Roedd barn gymysg ar fewnlenwi a llyfnu, gyda phryderon ynghylch a allai agwedd o'r fath arwain at ddatblygu mewn mannau anghynaladwy a phosibilrwydd nifer mawr cronnol o anheddau unigol mewn mannau heb wasanaethau a chymunedau bach iawn (yn enwedig pan fo dim ond un neu ddau eiddo'n bodoli).

4.18 O ran y Pentrefi Lleol lleiaf roedd gan Randdeiliaid gymysgedd o sylwadau ar y math o dai y dylid eu caniatáu, ond ymddangosai bod y mwyafrif yn ffafrio darparu tai'r farchnad agored, gyda chyfraniadau mwy tuag at dai fforddiadwy.

Mae'r Dewis a Ffefrir yn golygu dynodi **Hierarchaeth Anheddau** seiliedig ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Y Dewis Gofodol a Ffefrir yw **Dewis 2**:

**Canolbwynt Seiliedig ar Wasanaethau – Dosbarthu Tir ar gyfer Tai mewn anheddau yn ôl faint o wasanaethau sydd ynddynt ar hyn o bryd – mewn cylchoedd trefol / prif drefi (60%) ac anheddau gwledig unigol (40%) gyda digon o wasanaethau (Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu).**

**Bydd agweddau at bolisi mewn ardaloedd gwledig yn cynnwys y canlynol:**

- Clystyrau Anheddau i wahaniaethu rhwng cynaliadwyedd Pentrefi Lleol
- Defnyddio Ffiniau Anheddiad o fewn yr Hierarchaeth Anheddau
- Rhai cyfleoedd i fewnlenwi dan amgylchiadau ac mewn mannau penodol
- Datblygu tai'r farchnad agored yn holl Bentrefi Lleol ond gyda symiau mwy yn lle i gynorthwyo cyflenwi Tai Fforddiadwy mewn mannau llai cynaliadwy.

# 5. Y Strategaeth

## Trosolwg

5.1 Datblygwyd Strategaeth y CDLl ar sail adolygiad o'r dystiolaeth ac ar y cyd â rhanddeiliaid. Cafodd ei hysbrydoli gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno agwedd ar gyfer hyrwyddo twf cynaliadwy yn Sir Benfro yn y cyfnod 2017-2033.

## Meintiau Twf

5.2 Bydd y CDLl yn darparu ar gyfer y twf canlynol yn ystod cyfnod y Cynllun o 2017-2033:

| |
|---|
| 6,800 o gartrefi newydd<br>a<br>2,200 o swyddi newydd |

## Nifer y Cartrefi Newydd

5.3 Seiliwyd nifer y cartrefi newydd a ddynodwyd (6,800 yn ystod cyfnod y Cynllun neu 425 o gartrefi newydd y flwyddyn) ar ddadansoddiad demograffig ac ymgynghori â rhanddeiliaid ar amrywiaeth o ddewisiadau yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'n sylweddol uwch na hynny a nodwyd yn senarios Llywodraeth Cymru 2014 (ar sail newydd), sef 196 y flwyddyn. Mae'r ffigur ychydig uwchlaw'r hyn sy'n deillio o duedd fudo 15 mlynedd (408 y flwyddyn) ac yng nghanol cyfartaledd y tai a godwyd yn ystod y 5 a 10 mlynedd diwethaf. Oherwydd bod y ffigur o fewn yr amrediad a godwyd yn hanesyddol gan y diwydiant adeiladu lleol, mae'r Awdurdod yn hyderus ei fod yn cynrychioli targed cyraeddadwy. Bydd y ffigur uwch yn cynorthwyo codi mwy o dai fforddiadwy a bydd hefyd yn hybu mwy ar yr economi a diwydiant adeiladu lleol nag a fyddai gofyniad tai rhagamcaniad Llywodraeth Cymru. Mae seilio twf ar dueddiadau mudo'r 15 mlynedd diwethaf yn golygu bod cyfnod cyn y dirwasgiad yn y ffigurau a bod 'namau' diweddar yn symudiadau poblogaeth cysylltiedig â chau cyflogwr mawr yn 2014 (Purfa Aberdaugleddau) er enghraifft yn cael eu cyfartalu.

## Sefyllfa Bresennol Tir ar gyfer Tai a Diwallu'r Angen a Nodwyd

5.4 Mae Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn Sir Benfro 2017 yn nodi 3438 o unedau sydd naill ai wedi cael eu neilltuo neu â chaniatâd cynllunio, gan ystyried y byddant ar gael o fewn cyflenwad 5 mlynedd y cynllun ar gyfer Sir Benfro (mae elfen ychwanegol o'r cyflenwad tir llawn yn cynnwys safleoedd bach annisgwyl). Fel rhan o baratoi'r Cynllun Adneuo, bydd angen i Gyngor Sir Penfro asesu a ddylid cadw'r tir hwnnw a neilltuwyd heb ganiatâd cynllunio arno yn y Cynllun, asesu faint o safleoedd annisgwyl ddaw ar gael a hefyd nodi faint o ddarpariaeth sydd ei hangen trwy safleoedd newydd. Bydd y broses hon yn cynorthwyo asesu

Safleoedd Ymgeisiol. O ganlyniad, dosbarthwyd y Safleoedd Ymgeisiol hynny a allai gydymffurfio â'r Strategaeth Ddewisol ar y gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

## Mathau o Gartrefi sydd eu Hangen

5.5 Mae diweddariad o Asesiad o'r Farchnad Dai Leol i'w ddisgwyl yng ngwanwyn 2018. Bydd hwn yn ysbrydoli paratoi polisïau'r Cynllun Adneuo ar gyfer tai, i sicrhau bod y Cynllun yn cyflenwi cartrefi priodol. Mae dogfen ar wahân a gomisiynwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro ar yr angen am gartrefi gofal preswyl i'w ddisgwyl hefyd ar ddiwedd 2018 a fydd eto'n ysbrydoli polisïau'r Cynllun Adneuo a'r tiroedd sy'n cael eu neilltuo ganddo.

## Nifer y Swyddi Newydd

5.6 Nodwyd ffigur o 2,200 o swyddi ar sail tystiolaeth Experian GOAD[22].

5.7 Bydd y CDLl yn sicrhau bod cyfleoedd priodol i gynorthwyo twf economaidd yn cael eu nodi yn y Cynllun, trwy neilltuo tiroedd penodol a thrwy amrywiol bolisïau. O dderbyn yr ansicrwydd sylweddol ynghylch yr economi o ganlyniad i ymadawiad Prydain o'r UE, bydd y Cynllun yn sicrhau bod hyblygrwydd yn bodoli ar draws amrywiaeth o feysydd polisi economaidd i sicrhau bod modd ymateb i amrywiaeth o amgylchiadau economaidd. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar y cyfleoedd sy'n deillio o Drefniant Dinas-ranbarth Bae Abertawe fel dull o gynnal ffyniant economaidd. Bydd y cynllun hefyd yn gweithio gydag asedau Sir Benfro gan gynnwys cyfleoedd cysylltiedig â sectorau twf y porthladdoedd, ynni a'r môr. Bydd agweddau penodol mewn cysylltiad ag arallgyfeirio gwledig a'r diwydiant ymwelwyr yn cael eu cynorthwyo hefyd.

## Strategaeth Gynaliadwy

5.8 Bydd twf yn cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â strategaeth ofodol sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Fel rhan o hyn, bydd **Hierarchaeth Anheddau**'n dosbarthu anheddau'n wahanol gategorïau, gan ddibynnu ar faint o wasanaethau a chyfleusterau sydd ynddynt. Defnyddiwyd trefn bwysoli sy'n rhoi'r pwyslais mwyaf ar y cyfleusterau hynny sy'n debygol o leihau'r angen i deithio ac sydd fwyaf tebygol o fod yn gynaliadwy o ganlyniad. Bydd y twf mwyaf (safleoedd tai o 5 neu fwy) mewn anheddau yn haen Pentrefi Gwasanaeth neu uwch o fewn yr Hierarchaeth Anheddau.

5.9 Yn ogystal â Hierarchaeth Anheddau'r Cynllun, bydd tystiolaeth o Asesiad Strategol o Ganlyniad Llifogydd ar gyfer Sir Benfro, a gomisiynwyd ar hyn o bryd, yn ysbrydoli polisïau a neilltuo tiroedd, gan sicrhau nad yw datblygiad sy'n agored iawn i niwed yn digwydd ar safleoedd sydd naill ai mewn perygl llifogydd heddiw neu a allai ddod felly o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

[22] Gweler Papur Cefndir ar Dueddiadau Cyflogaeth Leol (Rhagfyr 2018) <https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-evidence-base>

Bydd ffynonellau eraill o ddata hefyd yn sicrhau na fydd ardaloedd o dir, sydd ar hyn o bryd yn cynorthwyo i leihau'r llif ddŵr dros y tir, yn cael eu datblygu

## Rhaniad Neilltuo Tir Trefol / Gwledig

5.10 Yr awgrym yw neilltuo tir 60% / 40% rhwng Trefol / Gwledig (safleoedd dros 5 uned). Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â rhaniad presennol poblogaeth Sir Benfro. Manteision yr agwedd hon yw ei bod yn cynnig cyfleoedd i gymunedau trefol a gwledig dyfu. Er y gall olygu defnyddio mwy o safleoedd tir glas nag agwedd gyda chanolbwynt mwy trefol, bydd y rhaniad hwn yn achosi llai o broblemau cysylltiedig â thagfeydd a llygredd yn y cylchoedd trefol. Mae defnyddio Hierarchaeth Anheddau'n golygu y bydd datblygiadau tai mwy (safleoedd o 5 neu fwy) sy'n cael eu hadeiladu yng nghefn gwlad yn cael eu troi i anheddau gyda gwasanaethau a chyfleusterau da.

## Agweddau at Bolisi Gwledig

5.11 O fewn yr anheddau bach yng nghefn gwlad gyda llai o wasanaethau (a ddiffiniwyd fel Pentrefi Lleol) bydd ffiniau anheddiad yn nodi mannau sy'n cael eu hystyried yn briodol ar gyfer datblygu (gan gynnwys tai'r farchnad a fforddiadwy). Bydd mwy o gyfle i'r Pentrefi Lleol hynny a ddynodwyd yn Bentrefi Lleol Clwstwr dyfu, oherwydd eu perthynas ag anheddau eraill gyda gwasanaethau allweddol.

5.12 Mewn mannau gwledig eraill, bydd cyfleoedd cyfyngedig i fewnlenwi'n ystyriol gyda safleoedd yn cynnwys 1 neu 2 annedd. Mewn mannau lle mae 20 neu fwy o anheddau, gall y rhain fod yn dai'r farchnad agored (gyda symiau sylweddol yn lle ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol). Mewn mannau lle mae llai nag 20 o anheddau, bydd cyfleoedd i fewnlenwi 1 neu 2 annedd ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.

## Hyrwyddo Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd

5.13 Wrth nodi tir ar gyfer tai yn y Cynllun Adneuo, bydd y Cynllun yn ystyried System Gwybodaeth Ddaearyddol ar gyfer cynefinoedd presennol. Pan fo cyfleoedd yn bodoli i hyrwyddo cysylltedd cynefinoedd, bydd CCA Safleoedd Datblygu yn nodi arwynebedd penodol safleoedd a ddylai gael blaenoriaeth fel gerddi neu glustogau gwyrdd. Mewn achosion o'r fath, fe all llai o drwch gael ei ddynodi. O fewn y Prif Drefi, bydd gwybodaeth o Astudiaeth Seilwaith Gwyrdd Sir Benfro[23] yn ysbrydoli neilltuo a gwarchod Seilwaith Gwyrdd. Bydd gwybodaeth am gynefinoedd hefyd yn ysbrydoli llunio ffiniau anheddiad.


## Draenio a Chynlluniau Draenio Cynaliadwy (SDC)

5.14 Bydd dyfodiad Byrddau Cymeradwyo SDC (BCS) ym mis Ionawr 2019 yn creu gofyniad newydd fod llawer o ddatblygiadau newydd yn cael caniatâd CCS (yn ogystal â chaniatâd cynllunio), fydd yn sicrhau bod agweddau draenio ar

[23] https://www.sir-benfro.gov.uk/cadwraeth/seilwaith-gwyrdd

gynigion datblygu dan sylw'n foddhaol. Fe all hyn beri newid rhai cynlluniau a llai o drwch mewn rhai datblygiadau tai. Cyngor Sir Penfro yw'r Bwrdd Cymeradwyo SDC yn ardal y Cynllun a bydd trafodaeth ar unrhyw ofynion SDC a goblygiadau i neilltuo tiroedd y Cynllun Adneuo yn digwydd fel rhan o unrhyw asesiad o Safleoedd Ymgeisiol.

## Ffigur 2: Diagram Allweddol Strategaeth y CDLl



© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

## 6. Polisïau Strategol

**SP 1 Creu Lleoedd Cynaliadwy**

Rhaid i holl gynigion sicrhau bod datblygiad yn cynorthwyo cyflawni ffyniant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Dylai cynigion datblygu ddangos y canlynol:

1. Effeithlonrwydd adnoddau (*gwelwch SP 19 Atal a Rheoli Gwastraff, GN.2 Dylunio Cynaliadwy a GN.4 Effeithlonrwydd Adnoddau ac Ynni Adnewyddadwy)*

2. Cynnal a gwella bioamrywiaeth (*gwelwch SP 11 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd a GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol)*

3. Hyrwyddo iechyd a ffyniant (*gwelwch GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol) (sylwch: bydd y Cynllun Adneuo'n cynnwys polisïau ar Seilwaith Gwyrdd a Thir Agored hefyd*

4. Cydraddoldeb mynediad (*gwelwch SP 3 Targed Tai Fforddiadwy, GN.2 Dylunio Cynaliadwy a GN.3 Isadeiledd a Datblygiad Newydd)*

5. Hygyrchedd gwasanaethau (*gwelwch SP 5 Hierarchaeth Anheddau a GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol)*

6. Cymorth i'r Gymraeg (gwelwch S*P 17 Y Gymraeg)*

7. Cyfrannu llai at newid yn yr hinsawdd *(gwelwch GN.1 Datblygu Cyffredinol, GN.2 Dylunio Cynaliadwy a GN.4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Cynigion Ynni Rhad ar Garbon).*

Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Ymosod ar Wledigrwydd a Gwarchod ein Hamgylchedd

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion A, D, E, F, H, I, J a K

6.1 Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gyflawni nodau Ffyniant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyflawni datblygu cynaliadwy a ffyniant. Mae'r polisi hwn yn cyflwyno'r prif ffyrdd y bydd disgwyl i gynigion datblygu ddangos eu bod yn cynorthwyo cyflawni ffyniant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ac, felly, yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

6.2 Cyflwynir cysylltiadau â pholisïau Strategol a Chyffredinol mwy penodol a fydd yn cael eu defnyddio i asesu a yw meini prawf SP 1 yn cael eu cyflawni o fewn testun y polisi.

6.3 O ran cyflawni Cymru ffyniannus, mae'n hollbwysig bod cynigion yn gallu dangos yr ystyriwyd effeithlonrwydd adnoddau wrth ddylunio unrhyw gynnig. Er mwyn hyrwyddo Cymru gydnerth, rhaid i gynigion nid yn unig gynnal ond cyfoethogi bioamrywiaeth hefyd a hyrwyddo cydnerthedd yr ecosystemau. Mae darparu tai fforddiadwy a mynediad priodol yn agweddau allweddol ar sut all y Cynllun gynorthwyo datblygu Cymru fwy cyfartal; mae buddiannau iachusol hefyd cysylltiedig â chyflenwi tai fforddiadwy. Bydd polisïau penodol o fewn y Cynllun

Adneuo yn manylu ar sut fydd yr elfennau hyn yn cael eu hasesu. Mae Strategaeth y Cynllun, ac yn arbennig yr Hierarchaeth Anheddau, yn allweddol i gynorthwyo cymunedau cydlynol a bydd datblygu sy'n unol â'r Hierarchaeth Anheddau yn gallu dangos cydymffurfiad â maen prawf 5 y Polisi. Bydd cefnogi'r Gymraeg yn cynorthwyo Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu.

## Maint y Twf

**SP 2 Gofyniad Tai**

Gwnaed darpariaeth ar gyfer rhyw 7,820 o anheddau yng nghyfnod y Cynllun, i alluogi cyflenwi 6,800 o anheddau (425 y flwyddyn).

Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcan: D

6.4 Mae ffigur gofynion tai'r CDLl dan ddylanwad senario demograffig sy'n cynnwys tybiaethau mudo seiliedig ar y pymtheng mlynedd diwethaf o hanes mudo (2001/02-2015/16). Mae'r senario hwn yn peri gofyniad blynyddol mwy am anheddau (408 y flwyddyn) na senario rhagamcaniad gofyniad tai Llywodraeth Cymru 2014 (ar sail newydd) sy'n arwain at ffigur o 196 o anheddau'r flwyddyn. Pennwyd y ffigur llawn o 425 yn dilyn ystyried y cyfraddau adeiladu ar gyfartaledd yn Sir Benfro yn ystod y 5 a 10 mlynedd flaenorol. Fel y trafodir yn Adran 3 Arfarnu Dewisiadau Twf Strategol, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi ffigur uwch na rhagamcaniad Llywodraeth Cymru ar y sail ganlynol:

- Bod modd ei gyflawni (yn unol â chyfraddau adeiladu hanesyddol).
- Ei fod yn adlewyrchu tueddiadau mudo tymor hwy, sy'n briodol o dderbyn cau cyflogwr mawr yn Sir Benfro yn 2014 (a fydd wedi effeithio ar y ffigurau mudo 5 mlynedd).
- Y bydd yn cynorthwyo diwallu'r angen sylweddol am dai fforddiadwy sydd wedi ôl-gronni ac yn gwneud cyfraniad mwy na dewis twf seiliedig yn unig ar ragamcaniadau Llywodraeth Cymru.
- Y bydd yn cynorthwyo'r diwydiant adeiladu lleol a'r economi ehangach ac yn gwneud cyfraniad mwy na dewis twf seiliedig yn unig ar ragamcaniadau Llywodraeth Cymru.
- Y bydd yn creu proffil poblogaeth mwy cytbwys na'r hyn sy'n cael ei ragweld gyda llai o dwf.
- Ei fod yn sgorio'n uwch na mwy o dwf o ran yr Arfarniad o Gynaliadwyedd trwy roi mwy o gyfleoedd i warchod ansawdd pridd, lleihau llygredd a gwarchod ansawdd dŵr.

6.5 Seiliwyd faint o dir i'w ddarparu ar gyfer tai ar dwf poblogaeth o ryw 11% sydd i'w ddisgwyl rhwng 2017 a 2033. Caiff dadansoddiad manwl o'r gofyniad tai ei gyflwyno ym Mhapur Rhagolygon Demograffig Sir Benfro 2018. Mae digon o dir preswyl ar gael i ddiwallu anghenion cymunedau am dai'r farchnad agored yn y dyfodol ac i gyfrannu at ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy. Mae'r gofyniad am anheddau'n cynnwys cyfradd wacter o 8.1%, sy'n cynnwys lwfans am gartrefi gweigion, ail gartrefi a llety gwyliau.

6.6 Caiff lwfans o 1,020 uwchlaw'r gofyniad tai am 6,800 o gartrefi ei bennu er mwyn caniatáu ar gyfer dewis, hyblygrwydd ac adnewyddu'r tai presennol a diffyg manteisio ar safleoedd. Mae hyn yn cynrychioli lwfans ychwanegol o 15%.

6.7 Bydd cartrefi newydd yn cael eu datblygu'n bennaf ar dir a neilltuwyd yn benodol ar gyfer tai ac mewn mannau cynaliadwy o fewn terfynau anheddiad diffiniedig, gan ofalu gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd graddfa a dosbarthiad datblygu tai yn Sir Benfro'n rhoi sylw i anghydbwysedd ym mhroffil oedran y boblogaeth, er enghraifft trwy gynorthwyo pobl ifanc i sefydlu cartrefi newydd mewn pentrefi gwledig. Fe fydd agweddau polisi penodol i hybu cynigion hunanadeiladu'n cael eu cyflwyno yn y Cynllun Adneuo. Fe fydd agweddau polisi eraill yn cael eu cyflwyno hefyd yn y Cynllun Adneuo i sicrhau bod cynigion yn cyflenwi niferoedd priodol o ystafelloedd gwely, yn cyflawni dylunio hyblyg ac yn ateb gofynion poblogaeth sy'n heneiddio, yng ngoleuni'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (i'w gyhoeddi'n gynnar yn 2019).

**SP 3 Targed Tai Fforddiadwy**

Bydd y Cynllun yn darparu o leiaf 2000 o anheddau fforddiadwy newydd (125 y flwyddyn).

Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar.

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: D, F.

6.8 Dylai cartrefi o safon sy'n ateb eu gofynion tai fod ar gael i bawb yn y Sir. I gyflawni hyn mae'n hanfodol darparu dewis o dai sy'n fforddiadwy i'r boblogaeth leol.

6.9 Seiliwyd y targed hwn ar faint o dai fforddiadwy a gyflenwyd yn hanesyddol ac sydd i'w disgwyl, yn hytrach nag ar faint yr angen. Mae'r angen am dai fforddiadwy mor fawr yn Sir Benfro ei fod yn cael ei ystyried yn rhy fawr i adeiladu targed ymarferol arno (gwelodd Asesiad o Anghenion y Farchnad Dai Leol yn 2014 fod angen 1641 y flwyddyn, nad oes modd ei gyflawni o ystyried mai'r gyfradd adeiladu dros 10 mlynedd ar gyfartaledd fu rhyw 450 y flwyddyn). Seiliwyd y ffigur yn rhannol ar gyflenwi hanesyddol ond mae hefyd yn derbyn y bydd Cyngor Sir Penfro'n adeiladu tai cyngor am y tro cyntaf yn y dyfodol. Dengys Atodiad 2 ddadansoddiad o'r tybiaethau wrth wraidd y ffigur o 2000.

6.10 Mae graddfa'r tai fforddiadwy sydd eu hangen yn Sir Benfro'n sylweddol fwy na'r nifer y mae modd eu darparu trwy Grant Tai Cymdeithasol presennol Llywodraeth Cymru. Trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio, fe all y drefn gynllunio gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy a'r ddarpariaeth hon, ochr yn ochr â'r ddarpariaeth drwy'r Grant Tai Cymdeithasol, sy'n ffurfio'r ffigur targed o 2000.

6.11 Bydd polisïau cyffredinol manwl ar safleoedd eithriedig a thir a allai gael ei neilltuo ar gyfer tai fforddiadwy 100% yn cael eu dangos yn y Cynllun Adneuo. Bydd trefniadau cyflenwi trwy Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn cael eu cynorthwyo drwy'r Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy (i'w cynhyrchu ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo) yn ogystal â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chyngor Sir Penfro (sydd ei hun yn ymgymryd â phrosiect adeiladu Tai Fforddiadwy erbyn hyn).

6.12 Bydd y Cyngor Sir yn gwneud arfarniadau ymarferoldeb i benderfynu targedau arwyddol (canrannau) ar gyfer darparu tai fforddiadwy gan ddatblygwr ar safleoedd a neilltuwyd a bydd gwybodaeth fanwl am dargedau mwy trylwyr yn y Polisïau Cyffredinol.

### SP 4 Cynorthwyo Ffyniant

Bydd y Cynllun yn cynorthwyo cyflenwi 2,200 o swyddi ledled Sir Benfro i gynnal ffyniant a thwf economaidd.

*Materion allweddol cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar ac Ymosod ar Wledigrwydd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion C, E ac I.*

6.13 Mae rhagolygon economaidd yn dangos y gall economi Sir Benfro ddatblygu 2,200 o swyddi ychwanegol yn y cyfnod rhwng 2017 a 2033. Seiliwyd y ffigwr hwn ar dystiolaeth o'r galw rhagamcanol o Experian Goad.[24]

6.14 Bydd y CDLl yn cynorthwyo cyflawni hyn trwy amrywiaeth o bolisïau.

6.15 Ar hyn o bryd mae Astudiaeth Economaidd Strategol Ranbarthol ar y gweill gan ddisgwyl adroddiad terfynol yn gynnar yn 2019. Bydd yr astudiaeth hon yn ysbrydoli neilltuo safleoedd strategol yn y Cynllun Adneuo, fydd yn cael eu henwi yn y Polisi Cyflogaeth Strategol. Bydd yn ystyried agweddau Sir Benfro ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Hefyd bydd polisïau strategol ar Ddatblygiad Cysylltiedig ag Ynni a Phorthladdoedd (SP 12), Cynorthwyo Datblygiad Manwerthu (SP 14), Economi Ymwelwyr (SP 15), Mwynau (SP 16) a Gwastraff (SP 19) yn cynorthwyo cyflawni ffigur swyddi llawn y Cynllun hwn.

6.16 Bydd agweddau cyffredinol at bolisi yn y Cynllun Adneuo'n cefnogi safleoedd cyflogaeth lleol, gweithio gartref ac arallgyfeirio gwledig.

6.17 O dderbyn yr ansicrwydd ynghylch yr economi cysylltiedig ag ymadawiad Prydain o'r UE, mae'n hollbwysig i'r Cynllun adael digon o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn cael ei greu'n rhannol gan bolisïau seiliedig ar feini prawf a fydd yn galluogi ystyried ceisiadau ar safleoedd oddi allan i'r rhai a neilltuwyd.

[24] Gweler Papur Cefndir ar Dueddiadau Cyflogaeth Leol (Rhagfyr 2018) <https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-evidence-base>

**SP 5 – Hierarchaeth Anheddau – Strategaeth Anheddau Cynaliadwy**

Diffiniwyd hierarchaeth anheddau ar sail nodweddion gweithredol a'r gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael, gan ystyried cymeriad presennol anheddiad hefyd. Mae'r hierarchaeth fel a ganlyn:

1. Anheddau Trefol
Prif Drefi

Abergwaun ac Wdig
Hwlffordd
Aberdaugleddau
Neyland
Penfro
Doc Penfro

2. Anheddau Gwledig

2a Tref Wledig:
Arberth

2b Canolfannau Gwasanaeth:

| | | |
|---|---|---|
| Cilgerran | Crymych | Johnston |
| Cilgeti | Llandyfái | Llangwm |
| Treletert | Llandudoch | |

2c Pentrefi Gwasanaethu:

| | | |
|---|---|---|
| Abercych | Begeli | Blaenffos |
| Boncath | Burton | Bwlchygroes |
| Caeriw / Sageston | Clarbeston Road | Clunderwen |
| Cosheston | Croesgoch | Cryndal |
| East Williamston | Eglwyswrw | Freystrop |
| Hermon | Hook | Hundleton |
| Houghton | Jeffreyston | Keeston |
| Llanddewi Efelffre | Llandysilio | Llanteg / Llanteglos |
| Llanstadwel | Maenclochog | Mathri |
| Y Capel Newydd | Llan-Fair | Pelcomb Cross |
| Penalun | Pentlepoir | Cas-mael |
| Redberth | Llangwathen | Y Garn |
| Rhosfarced | Simpson Cross | Spital |
| Y Sgwâr | St Florence | Summerhill |
| Tafarn Ysbyty | Tegryn | Tredeml |
| Tiers Cross | Cas-blaidd | Waterston |

2d Pentrefi Lleol:

| | | |
|---|---|---|
| Treamlod | Bethesda | Bridell |
| Broadmoor* | Burton Ferry* | Camros* |
| Casmorys* | Cold Blow* | Creseli* |
| Deerland* | Glandwr | Gumfreston |
| Croes Cas-lai | Hill Mountain* | Llanbedr Efelffre |
| Little Honeyborough | Casnewydd-bach* | Llan-lwy |
| Llangolman | Llanfyrnach | Llanychâr |
| Llanhuadain | Llys-y-frân | Lower Freystrop* |
| Yr Eglwys Lwyd | Maddox Moor | Maidenwells* |
| Martletwy | Mascle Bridge* | Milton* |
| New Inn | Pen-y-Bryn* | Pen-y-Cwm |
| Pleasant Valley | Pont-yr-Hafod | Portfield Gate |
| Postgwyn* | Poyston Cross | Princes Gate |
| Reynalton | Rhoscrowther | Rhos-Hill* |
| Sardis* | Scleddau | Stepaside |
| Tremarchog | Eglwys Wynnio | Thornton |
| Trecŵn | Treffynnon | Trefgarn |
| Trefgarn Owen | Tufton | Uzmaston |
| Welsh Hook | Cas-wis | Wolfsdale |
| Woodstock | | |

Mae Pentrefi Lleol Clwstwr wedi'u nodi gyda * (gweler Polisi SP 9)

Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar ac Ymosod ar Wledigrwydd, Gwarchod Ein Hamgylchedd.

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, D, F a J.

6.18 Datblygwyd yr Hierarchaeth Anheddau ar sail dadansoddi a phwysoli gwasanaethau a chyfleusterau mewn anheddau a bydd yn cael ei defnyddio fel Strategaeth Anheddau'r Cynllun. Mae'r Strategaeth Anheddau'n troi cyfran uchaf twf i'r anheddau hynny gyda'r cyfleusterau presennol mwyaf. Felly, bydd datblygiad yn gymesur â maint anheddiad, ei swyddogaeth a'i gymeriad, ac ar sail darpariaeth bresennol y gwasanaethau. Enwyd Hwlffordd, Aberdaugleddau, Doc Penfro, Penfro, Abergwaun, Wdig a Neyland yn Brif Drefi gyda chymeriad trefol, gyda Thref Farchnad Arberth yn cael ei dynodi'n Dref Wledig oherwydd ei chysylltiad cryf â'i chefn gwlad. Caiff rhagor o wybodaeth am y fethodoleg wrth wraidd yr Hierarchaeth Anheddau ei chyhoeddi fel rhan o sylfaen dystiolaeth y Cynllun.[25]

6.19 Mae'r matrics canlynol yn dangos y mannau lle bydd rhai mathau o ddatblygiad yn debygol o gael eu derbyn, ac mae'n dangos bod y Cynllun hwn yn

[25] Gwelwch Astudiaeth Cyfleusterau Gwledig 2017 (https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol)

rhoi cyfleoedd i amrywiaeth o ddatblygiadau a defnyddiau tir ymhob haen o'r hierarchaeth.

| Polisi | Trefi'r Hafan | Trefi Gogledd Sir Benfro | Trefi Gwledig | Canolfannau Gwasanaeth | Pentrefi Gwasanaethu | Pentrefi Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tir ar gyfer tai | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Tai annisgwyl y farchnad agored | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Tai fforddiadwy angen lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Safleoedd eithriedig ar gyfer tai | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Tiroedd ar gyfer cyflogaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Safleoedd cyflogaeth trwy bolisïau seiliedig ar feini prawf | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyfleusterau cymunedol – o fewn neu gyda chysylltiad da ag anheddau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

### SP 6 Ffiniau Anheddiad

Caiff Ffiniau Anheddiad eu dangos ar gyfer holl anheddau gan ddiffinio'r ardaloedd y gall cyfleoedd datblygu fod yn briodol ynddynt. Mae Ffiniau Anheddiad y Prif Drefi a Threfi Gwledig, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu'n diffinio cyrhaeddiad ffisegol, gweithredol a gweledol yr anheddiad gan ystyried neilltuad tiroedd arfaethedig. Caiff Ffiniau Anheddiad Pentrefi Lleol eu diffinio'n dynnach, gan gyfyngu unrhyw gyfleoedd i fewnlenwi a llyfnu ar raddfa fach, er bod mwy o gyfleoedd datblygu'n bodoli mewn Pentrefi Lleol Clwstwr.

Oddi allan i ffiniau anheddiad, caiff grwpiau cartrefi eu hystyried yn bentrefannau. GN.5 sy'n cyflwyno'r agwedd at gynigion mewnlenwi yn y mannau hynny.

Mae holl fannau eraill oddi allan i Ffiniau Anheddiad yn cael eu hystyried yn Gefn Gwlad**.**

Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar ac Ymosod ar Wledigrwydd, Gwarchod Ein Hamgylchedd.

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, D, G a J.

6.20 Mae Ffiniau Anheddiad yn sicrhau bod datblygu'n digwydd mewn mannau cynaliadwy a bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei warchod. Y lle mwyaf priodol ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ddatblygiad yw o fewn Terfyn Anheddiad, er y bydd cyfiawnhad dros leoliad ar ymyl anheddiad neu yng nghefn gwlad mewn rhai achosion. Mae'r Polisïau Cyffredinol yn eglurhau mannau sy'n cael eu hystyried yn dderbyniol ar gyfer defnyddiau tir penodol, gan gynnwys amgylchiadau eithriadol lle gallai datblygiad ddigwydd ar bwys ac oddi allan i Ffin Anheddiad. Bydd disgwyl i gynigion datblygu tai yn y Prif Drefi, Trefi Gwledig, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu ystyried nifer cynyddol yr aelwydydd un preswylydd a'r boblogaeth sy'n heneiddio, yn y gymysgedd o fath, maint a deiliadaeth tai.

**SP 7 Prif Drefi**

O fewn y Prif Drefi, bydd datblygu'n cynnal cymunedau cynaliadwy, cysylltiadau cyflenwol rhwng trefi, creu lle a ffyniant trwy sicrhau'r canlynol:

1. Hygyrchedd trwy amrywiaeth o fathau cynaliadwy o gludiant;
2. Llety o safon sy'n cynnal amrywiaeth o fewn y farchnad breswyl, mynediad at wasanaethau presennol ac arfaethedig ac anghenion tai cymunedau;
3. Cyfleoedd i gael cyfleusterau masnachol, manwerthu, cyflogaeth, twristiaeth, hamdden, adloniadol, seilwaith gwyrdd a chymunedol newydd.

Fel eithriad, fe all defnyddiau tir priodol sy'n cyd-fynd yn dda â Ffin yr Anheddiad ddigwydd ond iddynt fodloni hyn a holl ystyriaethau polisi eraill, gan gynnwys cydnawsedd gyda Fframweithiau Adfywio.

Materion Allweddol Cysylltiedig: *Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Ymosod ar Wledigrwydd, Gwarchod Ein Hamgylchedd*

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B, C ,D, G, H, I a J

6.21 Mae Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 yn nodi pwysigrwydd datblygu tri chanolbwynt strategol y Rhanbarth, dau ohonynt yn Sir Benfro (Daugleddau ac Abergwaun ac Wdig). Bydd cyfran sylweddol o ddatblygiad preswyl yn cael ei droi i'r Prif Drefi yn ystod cyfnod y Cynllun. Yn y Cynllun Adneuo bydd tir yn cael ei neilltuo i'w ddatblygu ar gyfer cyflogaeth a defnyddiau tir eraill ym mwyafrif y Prif Drefi, i gynnal parhad eu swyddogaeth fel canolfannau gweithgaredd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

6.22 Bydd Ffiniau Anheddiad holl Prif Drefi'n cael eu dynodi yn y Cynllun Adneuo sy'n dangos yr ardaloedd lle mae rhagdybiaeth o blaid datblygu, yn amodol ar fodloni holl ystyriaethau polisi eraill. Fe all rhai defnyddiau fod yn dderbyniol lle maent yn cyd-fynd yn dda â Ffin Anheddiad, er enghraifft datblygu cyflogaeth a thai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig. Caiff ardaloedd oddi allan I Ffiniau Anheddiad eu hystyried yn gefn gwlad.

6.23 Mae adfywio canol trefi'n flaenoriaeth allweddol ac mae Uwchgynlluniau / Fframweithiau Adfywio'n cael eu datblygu ar gyfer pob un o'r Prif Drefi i gynorthwyo a galluogi eu hadfywiad.

### Hwlffordd

6.24 Hwlffordd yw prif dref Sir Benfro, ynghanol y Sir gyda chysylltiadau ffyrdd da â phobman yn Sir Benfro a chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd cryf â gweddill de a gorllewin Cymru a thu hwnt. Dyma brif ganolfan weinyddol Sir Benfro gyda darpariaeth sylweddol ar gyfer Addysg Bellach / Addysg Uwch a gofal iechyd. Bydd swyddogaeth Hwlffordd fel canolfan isranbarthol yn datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun, gyda thwf mewn poblogaeth, cyfleoedd cyflogaeth a mentrau treftadaeth ac adfywio ar gyfer canol y dref. Bydd neilltuo tir ar gyfer tai yn

Hwlffordd yn cyfrannu tuag at ateb gofynion tai’r Cynllun. Bydd tir yn cael ei neilltuo at ddibenion cyflogaeth mewn mannau amrywiol yn y dref, gyda chyfleoedd datblygu sylweddol yn debygol ym Mharc Busnes y Llwyn Helyg (safle cyflogaeth strategol sy’n cael ei nodi ar gyfer defnyddiau busnes o safon). Mae cyfle i adeiladu ar y posibiliadau cysylltiedig â’r sector bwyd-amaeth yn yr ardal hon. Mae perygl llifogydd a ffurf y tir yn cyfyngu ar ganol tref Hwlffordd ond mae cyfle’n aros i adfywio ac adeiladu ar gryfderau Canol y Dref. Bydd Cyfarwyddyd Datblygu’n cael ei baratoi i gynorthwyo adfywio Canol Tref Hwlffordd.

**Aberdaugleddau a Neyland**

6.25 Caiff Aberdaugleddau a Neyland eu hystyried gyda’i gilydd oherwydd eu hagosrwydd a natur patrymau byw a gweithio yn y cylch, yn arbennig nifer y safleoedd cyflogaeth mawr cysylltiedig ag ynni ger y ddyfrffordd. Tref gyda dalgylch cyfyngedig yw Aberdaugleddau, a bydd canol y dref yn cael ei gyfnerthu a gwell cysylltiadau’n cael eu datblygu ag ardal y marina. Mae marinâu yn y ddwy dref a chysylltiadau cryf ag Aber Cleddau, gan roi cyfleoedd i ddatblygu yn y diwydiannau hamdden, ymwelwyr a physgota.

6.26 Mae’n debygol y bydd safleoedd cyflogaeth strategol yn cael eu neilltuo mewn safleoedd heb eu datblygu ar bwys Aber Cleddau gyda mynediad dŵr dwfn, lle gall llongau angori mewn dŵr dwfn.

**Doc Penfro**

6.27 Canolfan gwasanaethau, cyflogaeth a manwerthu allweddol yn ne Sir Benfro yw Doc Penfro. Yno mae cyfleoedd i atgyfnerthu canol y dref trwy ailddatblygu dethol a allai wella’r amgylchedd a chynyddu’r cyfle i gael unedau manwerthu mwy. Mae porthladd Doc Penfro’n cysylltu’r ardal â masnach ryngwladol ac mae’n datblygu fel canolfan ragoriaeth ar gyfer gweithgaredd cyflogaeth gysylltiedig â pheirianneg y môr ac ynni adnewyddadwy.

**Penfro**

6.28 Bydd tref hanesyddol Penfro’n elwa ar ddatblygiadau sy’n atgyfnerthu mwy ar warchod ei threftadaeth adeiledig a naturiol drawiadol. Mae’n gyrchfan ymwelwyr bwysig, yn ogystal â chanol tref gyda chynnig manwerthu a gwasanaethau sylweddol.

**Abergwaun ac Wdig**

6.29 Mae gan Abergwaun ac Wdig swyddogaeth wasanaethu bwysig yng Ngogledd Sir Benfro, a byddai’n elwa ar fuddsoddiad i wella’r darpariaethau manwerthu a gwasanaethau a lleihau’r angen i drigolion deithio i ardaloedd eraill ar gyfer gwaith a siopa. Mae caniatâd ar gyfer gwelliannau symudiad traffig a hygyrchedd ynghanol y dref a fydd yn gwella amgylchedd canol y dref yn sylweddol. Mae Harbwr Abergwaun, sydd o fewn ac ar bwys Tref Wdig, yn fan cysgodol rhagorol i wasanaethau fferi dros Fôr Iwerddon, gyda chysylltiadau da

â’r rhwydwaith Cefnffyrdd a’r rhwydwaith rheilffyrdd. Mae Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 yn nodi bod yr angen i wneud y gorau o asedau morol ac agosrwydd yr ardal at Iwerddon yn flaenoriaeth strategol.

**SP 8 Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu**

O fewn Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu, bydd datblygu'n hybu cymunedau cynaliadwy, economi cefn gwlad ffyniannus, gwneud lle a ffyniant trwy sicrhau'r canlynol:

1. Datblygiad o raddfa a natur briodol ar gyfer yr anheddiad;

2. Llety o safon gyda deiliadaeth(au) yn briodol ar gyfer anghenion tai'r gymuned;

3. Cyfleoedd i gael cyfleusterau masnachol, cyflogaeth, manwerthu, twristiaeth, hamdden, adloniadol, tir agored, seilwaith gwyrdd a chymunedol newydd sy'n hygyrch ac yn gwasanaethu'r gymuned leol.

Fel eithriad, fe all defnyddiau tir priodol sy'n cyd-fynd yn dda â ffin yr anheddiad ddigwydd ond iddynt fodloni hyn a holl ystyriaethau polisi eraill.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Ymosod ar Wledigrwydd, Gwarchod Ein Hamgylchedd*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B, C, D, G, H, I a J*

6.30 Caiff anheddau yn yr ardal wledig eu dosbarthu yn unol â'r hierarchaeth anheddau, seiliedig ar dystiolaeth o gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael yn yr anheddau hynny a'u gallu i dderbyn rhagor o ddatblygiad. Caiff y rhai gyda rhychwant da o wasanaethau eu hystyried yn fannau mwy cynaliadwy i'w datblygu a chânt eu dosbarthu o ganlyniad o fewn yr Hierarchaeth Anheddau presennol.[26]

6.31 Mae'r Hierarchaeth Anheddau'n derbyn bod cadw gwasanaethau'n hyfyw yng nghefn gwlad yn fwyfwy anodd, a'r bwriad yw cynorthwyo datblygu yn yr anheddau hynny lle mae gwasanaethau'n fwyaf tebygol o aros yn ymarferol yn y tymor canolig i hir. Caiff neilltuo tir ar gyfer datblygu tai i ddiwallu anghenion y gymuned, a chyfleusterau cyflogaeth, manwerthu a chymunedol newydd sy'n cynorthwyo cynnal cymunedau gwledig eu cefnogi.

6.32 Mae Hierarchaeth Anheddau Sir Benfro'n diffinio Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaethu fel mannau lle mae amrywiaeth o ddefnyddiau tir yn briodol ac sy'n darparu ar gyfer ffyniant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol. Fe all rhai defnyddiau ddigwydd pan fo cynnig yn cyd-fynd yn dda â Ffin Anheddiad, er enghraifft rhai mathau o gynigion cyflogaeth a thai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig.

6.33 Mae Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 yn nodi pwysigrwydd lledaenu budd a thwf o'r Canolbwyntiau i'r cefnwledydd ehangach a chymunedau gwledig llai ac mae'n derbyn bod angen cryfhau a chynnal holl gymunedau ac ymosod ar amddifadedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Mae'n datgan ei bod yn bwysig bod twf tai hefyd yn ceisio adfywio a chynnal canolfannau a chymunedau llai. O'i chyhoeddi, bydd Strategaeth Ranbarthol Tai Lleol yn cyflwyno'r anghenion a

[26] Adolygwyd a diweddarwyd yr Hierarchaeth Anheddau ym mis Medi 2018 ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid.

materion tai mewn cymunedau gwledig. Bydd y Strategaeth Tai Lleol yn cael ei hadolygu'n dilyn diweddaru'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.

6.34 Mae agwedd y Cynllun hwn yn derbyn y gall darparu twf mewn cymunedau gwledig cynaliadwy gynorthwyo creu digon o alw i alluogi dal gafael ar gyfleusterau mewn anheddau gwledig. Trwy droi tai at anheddau gyda darpariaeth gref o wasanaethau, mae hefyd yn lleihau'r angen i drigolion deithio.

**Arberth**

6.35 Tref farchnad wledig ddeniadol yn nwyrain Sir Benfro yw Arberth gyda chynnig manwerthu cloer sy'n denu ymwelwyr o ddalgylch eang. Dylai datblygiad yn Arberth gynnal atyniad profiad byw yn y dref ac ymweld â hi. Bydd datblygiad preswyl yn ystod cyfnod y Cynllun yn cynnwys neilltuo tir ar gyfer amrywiaeth o wahanol fathau o dai. Mae'n ofynnol darparu cyflogaeth i gynnal y gymuned gynaliadwy hon.

**Canolfannau Gwasanaeth**

6.36 Dynodwyd wyth o anheddau'n Ganolfannau Gwasanaeth yn yr Hierarchaeth Anheddau: Cilgerran, Crymych, Johnston, Cilgeti, Llandyfái, Treletert, Llangwm a Llandudoch. Y Weledigaeth ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth yw eu bod yn cyfnerthu a datblygu eu swyddogaethau fel mannau lle caiff amrywiaeth a dewis da o wasanaethau eu darparu, eu bod yn hygyrch i'w poblogaeth a'u cefn gwlad ehangach eu hunain a'u bod yn lleihau'r angen i'r boblogaeth wledig deithio i Brif Drefi at holl ddibenion manwerthu, hamdden a chyflogaeth. Mae gan y Canolfannau Gwasanaeth gysylltiadau cludiant cyhoeddus rhagorol ac maent yn fannau cynaliadwy i'w datblygu yng nghefn gwlad Sir Benfro. Pan fo hynny'n briodol i Ganolfannau Gwasanaeth, caiff tir ei neilltuo ar gyfer tai, cyflogaeth neu ddefnydd cymysg a chyfleusterau cymunedol.

**Pentrefi Gwasanaethu**

6.37 Diffiniwyd 48 o bentrefi yn y categori hwn yn yr Hierarchaeth Anheddau. Mae pob pentref yn cynnig darpariaeth dda o wasanaethau a chyfleusterau i ddiwallu anghenion arferol eu poblogaeth, ond mae eu swyddogaeth yn fwy cyfyngedig o ran y boblogaeth ehangach. Pan fo safleoedd priodol ar gael, bydd tir yn cael ei neilltuo ar gyfer tai'r farchnad a thai fforddiadwy mewn Pentrefi Gwasanaeth, gyda'r union nifer ymhob pentref yn amrywio yn ôl y lleoliad, darpariaeth gwasanaethau a lle ar gyfer datblygu. Caiff cynigion i ddatblygu ac ehangu eiddo cyflogaeth mewn Pentrefi Gwasanaeth eu hybu, fel dull o leihau'r angen i bobl deithio pellterau maith i weithio mewn trefi.

### SP 9 Pentrefi Lleol

Mewn Pentrefi Lleol, bydd datblygu'n hybu cymunedau cynaliadwy, creu lle a ffyniant y gymuned leol trwy sicrhau'r canlynol:

1. Datblygiad o raddfa a natur sy'n briodol i'r pentref neu bentref clwstwr
2. Llety o safon gyda deiliadaeth(au) yn briodol ar gyfer anghenion tai'r gymuned
3. Cyflogaeth neu fenter a fyddai'n cynnal economi cefn gwlad
4. Darparu adloniant, tir agored, hamdden, seilwaith gwyrdd neu gyfleuster cymunedol sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac o fewn neu'n cyd-fynd yn dda â Ffin yr Anheddiad

Y canlynol yw'r Pentrefi Clwstwr:

| | | |
|---|---|---|
| Broadmoor | Burton Ferry | Camros |
| Casmorys | Cold Blow | Creseli |
| Deerland | Hill Mountain | Casnewydd-bach* |
| Lower Freystrop | Maidenwells | Mascle Bridge |
| Milton | Pen-y-Bryn* | Postgwyn* |
| Rhos-Hill | Sardis | |

*Pentref Clwstwr Cymraeg

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Ymosod ar Wledigrwydd, Gwarchod Ein Hamgylchedd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B, C, D, F, H, I a J*

6.38 Nid oes disgwyl i bentrefi gyda darpariaeth gyfyngedig o wasanaethau dderbyn llawer o ddatblygiad yn ystod cyfnod y Cynllun ac ni chaiff unrhyw dir ei neilltuo ar gyfer tai yn y Pentrefi Lleol.

6.39 Mewn Pentrefi Lleol, caiff Ffiniau Anheddiad eu defnyddio i eglurhau ble allai mewnlenwi a llyfnu gyda thai fod yn addas, ac ymhle gellid cynnig tir ar gyfer cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol a lleol eraill. Yn gyffredinol, bydd llain neu ddwy mewn Pentrefi Lleol ar gyfer cynigion hunanadeiladu neu adeiladu wrth fesur. Yn y mannau hyn bydd gofyn rhoi 50% o gyfraniad at gynorthwyo Tai Fforddiadwy trwy swm yn lle trwy lwybr bws i'r anheddiad neu gael opsiwn llwybr deithio gweithredol - unai llwybr gerdded neu feicio i anheddiad lefel uwch neu Bentref Lleol, a fydd yn cyfansymu i fwyafrif o 25 munud o amser teithio. Mae'n rhaid i'r anheddiad clwstwr arfaethedig gael sgôr meintiol o 5 neu fwy am y cyfleusterau sydd ar gael..

6.40 Mewn Pentrefi Clwstwr, bydd caniatâd i ddatblygu tai ar raddfa fach o fewn ffiniau anheddiad. Fe all safleoedd tai ar raddfa fach gyflenwi rhwng 1 a 5 o anheddau, o fewn Ffiniau Anheddiad, ar dir na neilltuwyd ar gyfer defnydd arall. Ni fydd cynigion cynllunio sy'n ceisio datblygu rhan o safle mwy a fyddai â lle i 5 neu fwy o anheddau'n cael eu cefnogi. Bydd maint cynigion cronnol yn ystyriaeth hefyd.

6.41 Mewn rhai achosion, nid yw Pentrefi Clwstwr yn ateb pob un o'r gofynion uchod ond, lle byddai datblygiad preswyl ar raddfa fach, gan gynnwys hunanadeiladu, yn cynorthwyo gwarchod a hybu defnyddio'r Gymraeg, fe all datblygu o'r fath fod yn briodol. Caiff y rhain eu dynodi fel Pentrefi Clwstwr* o fewn SP9.[27]

6.42 Mae 40 o Bentrefi Lleol, nad ydynt yn Bentrefi Clwstwr, a lle bydd dim ond cynigion ar raddfa fach iawn (mewnlenwi) yn cael eu caniatáu. Caiff cynigion i gynyddu darpariaeth gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth yn y Pentrefi Lleol hyn, sy'n briodol o ran graddfa a natur, eu hybu.

[27] Mae'r Papur Cefndirol Clwstwr Anheddau (Rhagfyr 2018) yn cyflwyno'r fethodoleg ac ymresymu a ddefnyddiwyd i nodi pentrefi clwstwr.

### SP 10 Cefn Gwlad

Bydd cynigion datblygu yng Nghefn Gwlad yn cael eu cefnogi pan fo'n ofyniad hanfodol i bobl sy'n byw ac yn gweithio yno a phan fo'n parchu ei osodiad yn y dirwedd a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd datblygu sy'n lleihau'r effaith weledol ar y dirwedd ac sy'n gysylltiedig ag un o'r canlynol yn cael ei hyrwyddo:

1. Mentrau y mae bod yng nghefn gwlad yn hanfodol iddynt; gan gynnwys Datblygiad Un Blaned.
2. Cyfleoedd i gartrefu gweithwyr mentrau gwledig mewn tai addas sy'n cynnal eu cyflogaeth;
3. Cynlluniau arallgyfeirio amaethyddol priodol; a
4. Ailddefnyddio ac addasu adeiladau presennol priodol.

Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar ac Ymosod ar Wledigrwydd, Gwarchod Ein Hamgylchedd.

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, D, F, H a J.

6.43 Mae holl fannau oddi allan i Ffiniau Anheddiad, ar wahân i bentrefannau (gwelwch GN.5), yn cael eu hystyried yn gefn gwlad. Yn gyffredinol, mae polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol yn cyfyngu datblygiad preswyl mewn ardaloedd a ddiffiniwyd fel cefn gwlad i'r bobl hynny y mae eu cyflogaeth yn gofyn eu bod yn byw'n agos at eu gweithle yng nghefn gwlad. Polisi cenedlaethol sy'n pennu meini prawf ar gyfer cynigion o'r fath. Mewn rhai achosion, bydd addasiadau o adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad i ddefnydd preswyl yn cael eu caniatáu os yw'n golygu bod adeilad traddodiadol neu hanesyddol, a allai gael ei golli fel arall, yn cael ei warchod a'i ddefnyddio. Rhaid i'r adeiledd allu cynnal y defnydd newydd gyda'r lleiaf o newid i'r adeiledd gwreiddiol. Fe all trosi adeiladau anhraddodiadol fod yn dderbyniol at ddefnyddiau cyflogaeth.

6.44 Bydd angen i gynigion datblygu busnes newydd yng nghefn gwlad ddangos bod lleoliad cefn gwlad yn hanfodol i'r busnes. Bydd cynlluniau arallgyfeirio ffermydd ac estyniadau priodol i fusnesau presennol yn cael eu cefnogi lle maent yn briodol. Pan fo datblygiad yn gorfod digwydd i ateb gofynion hanfodol pobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, mae'n bwysig lleihau effaith weledol unrhyw ddatblygiad.

6.45 Mae Datblygiadau Un Blaned Ymhlith mentrau y mae lleoliad cefn gwlad yn cael ei ystyried yn hanfodol iddynt. Mae Polisi Cenedlaethol yn galluogi i Ddatblygiadau Un Blaned ddigwydd os ydynt yn ddi-garbon wrth eu hadeiladu a'u defnyddio ac yn cyflawni ôl troed ecolegol o 2.4 hectar byd-eang neu lai fesul unigolyn o ran treuliant, a lle gallant ddangos posibilrwydd amlwg o allu symud i gyfeiriad nod o 1.88 hectar byd-eang dros gyfnod.

6.46 Yn Sir Benfro a'i chyd-destun ehangach mae amrywiaeth o amgylcheddau a thirweddau pwysig, rhai ohonynt yn cael eu dangos ar y Mapiau Cynigion fel dynodiadau natur. Yn ogystal â'r amgylcheddau penodol sy'n cael eu gwarchod

gan amrywiaeth o ddynodiadau, mae nifer o dirweddau, coetiroedd, gwrychoedd, coed a rhywogaethau heb ddynodiad ledled ardal y Cynllun ac sy'n cyfrannu at wneud Sir Benfro'n lle arbennig. Mae rhai o'r rhywogaethau sydd i'w cael yn Sir Benfro o werth arwyddocaol i ecoleg yr ardal, gan gynnwys rhywogaethau gwarchodedig Ewropeaidd fel ystlumod, dyfrgwn, pathewod a glöyn byw brith y gors.

6.47 Mae amgylcheddau naturiol a hanesyddol neilltuol Sir Benfro'n rhan o'r hyn sy'n denu niferoedd enfawr o ymwelwyr bob blwyddyn ac sy'n adnodd gwerthfawr i'r Sir gyfan. Yn ogystal â bod yn amgylchedd gweithio, mae cefn gwlad yn cynnig dewis o gyfleoedd adloniadol amrywiol i drigolion ac ymwelwyr. Nod y Cynllun hwn yw gwarchod cefn gwlad a rheoli ei ddefnydd, fel bod modd darparu'r elfennau pwysig hyn.

6.48 Mae amgylcheddau naturiol a lled-naturiol Sir Benfro hefyd yn darparu gwasanaethau i'r economi a'r gymdeithas, a gellir adnabod hyn o gryn bellter o'r safle dan sylw e.e. gwella risg llifogydd, ansawdd y dŵr, ansawdd yr aer, gostwng ac addasu newid hinsawdd, ymneilltuad carbon, peillio cnydau.

6.49 Mae llawer o heriau wrth geisio cynnal amgylchedd naturiol a hanesyddol cryf ar yr un pryd â sicrhau cyflawni amcanion allweddol eraill yn y Cynllun, fel darparu tai neu adeiladu ar leoliad ynni strategol y Sir a datblygiad cysylltiedig â phorthladdoedd. Bydd Polisïau Cyffredinol ar ddatblygu'n sicrhau bod yr heriau hyn yn cael eu rheoli'n llwyddiannus.

**SP 11 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd**

Bydd amgylchedd Sir Benfro (gan gynnwys rhywogaethau, cynefinoedd, tirweddau a'r cyfundrefnau sy'n sail iddynt) yn cael ei warchod rhag datblygu niweidiol sylweddol.

Pan fo cyfleoedd yn bodoli i wella cyflwr, maint a/neu gysylltedd y nodweddion hyn i wella gweithrediad a chydnerthedd ecosystemau, neu wella mynediad priodol at dir glas, dylid cynnwys y rhain mewn cynllun datblygu.

Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar a Gwarchod Ein Hamgylchedd.

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion A, H a J.

6.50 O'u datblygu, bydd Datganiadau Ardal i'w cynhyrchu gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ddogfennau allweddol fydd yn rhoi gwybodaeth am amgylchedd Sir Benfro. Ffynonellau gwybodaeth pwysig eraill fydd y blaenoriaethau yn nogfennau disgwyliedig Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur Sir Benfro, y Dull Cynllunio Defnydd Tir Sir Benfro a Chanllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth ac un ar wahân ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd. Bydd y dogfennau hyn yn cynorthwyo asesu a fyddai datblygu'n niweidio'r amgylchedd yn sylweddol neu beidio. Bydd unrhyw gynigion datblygu o'r fath yn cael eu gwrthod.

6.51 Dan Ddeddf yr Amgylchedd 2016, mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd fioamrywiaeth uwch sy'n gofyn ei fod yn cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 hefyd yn cynnwys 'Cymru Gydnerth' fel un o'i nodau, sy'n gofyn bod Awdurdodau'n cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. Fel rhan o gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd y Cynllun yn gofyn bod datblygiadau'n dangos eu bod wedi ymgorffori posibilrwydd buddiannau amgylcheddol o fewn cynlluniau, pan fo hyn yn ymarferol.

6.52 Pan fo cyfle i ddatblygiad gyflawni gwelliannau bioamrywiaeth trwy ei ddyluniad a'i osodiad, dylid ymgorffori'r rhain yn y cynllun. Mewn rhai achosion, bydd dyfodiad cyfundrefn ganiatâd Draenio Trefol Cynaliadwy yn 2019 yn mynnu bod cynlluniau'n cynnwys pyllau a nodweddion tirwedd eraill a allai gynorthwyo gwella bioamrywiaeth. Pan fo cyfleoedd o'r fath yn bodoli, bydd y drefn gynllunio'n cefnogi'r rhain, hyd yn oed mewn achosion lle mae hyn yn arwain at lai o drwch anheddau i'r hectar nag y gallai'r safle ei gynnal fel arall.

6.53 Bydd CCA Safleoedd Datblygu'n cael ei gynhyrchu i gyd-fynd â'r Cynllun Adneuo. Bydd hwn yn nodi ble mae cyfleoedd ar safleoedd a neilltuwyd i hyrwyddo cydgysylltiad cynefinoedd trwy ddefnyddio gerddi neu dirweddu'n greadigol. Bydd y gofynion hyn ar safleoedd yn cael eu hysbrydoli gan yr Offeryn

Cynllunio Defnydd Tir a ddatblygwyd gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro, ochr yn ochr â chadw cyswllt ag ecolegwyr Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyngor.

6.54 Mae 'Trefi Sir Benfro: Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd'[28] yn cynnig amrywiaeth o brosiectau yn nhrefi Abergwaun ac Wdig, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Arberth, Neyland, Penfro a Doc Penfro (ac mewn prif anheddau yn y Parc Cenedlaethol) sy'n anelu at wella Seilwaith Gwyrdd mewn anheddau. Bydd terfynau prosiectau Seilwaith Gwyrdd allweddol yn anheddau Cyngor Sir Penfro'n cael eu dangos ar y map cynigion a byddant yn ystyriaeth ar gyfer cynigion datblygu sy'n gallu cyfrannu at eu gwella. Bydd y Cynllun Adneuo'n pennu polisi ar sail meini prawf ar wella Seilwaith Gwyrdd y rhain a safleoedd eraill ar draws anheddau.

6.55 O ran cynlluniau ar raddfa lai, bydd cyngor yn y CCA Bioamrywiaeth yn cynorthwyo nodi cyfleoedd i gael gwelliannau. Bydd ymgysylltu â'r Cyngor cyn gwneud cais hefyd yn galluogi nodi gwelliannau priodol a phenodol i safleoedd.

[28] https://www.sir-benfro.gov.uk/cadwraeth/seilwaith-gwyrdd

**SP 12 Datblygiad Cysylltiedig ag Ynni a Phorthladdoedd**

Bydd cynigion datblygu ar gyfer cyfleusterau a seilwaith priodol cysylltiedig â diwydiant a phorthladdoedd, gan gynnwys cynigion ar gyfer ynni sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol a lleoliadau porthladdoedd, yn cael eu cefnogi ym mhorthladdoedd Aberdaugleddau ac Abergwaun ac o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, lle gallant ddangos eu bod yn parchu ac yn gwarchod yr amgylchedd naturiol, ac adeiledig.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio a Chymunedau Dyfeisgar.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion C, E ac I.*

6.56 Mae Porthladd Aberdaugleddau (sy'n ymgorffori ardaloedd y dociau yn Aberdaugleddau a Doc Penfro) yn darparu cyfleusterau porthladd dŵr dwfn mewn man cysgodol sy'n anghyffredin ac yn bwysig yn rhyngwladol. Eisoes ym Mhorthladd Aberdaugleddau mae cryn weithfeydd a seilwaith cysylltiedig ag ynni ac mae lle i ddatblygu mwy ar y swyddogaeth hon. Yno hefyd, yn Noc Penfro, mae terfynfa fferi gyda chysylltiadau nwyddau a theithiwr â Gweriniaeth Iwerddon. Yn ogystal â therfynfa'r fferi, mae ardaloedd eang o dir cyflogaeth yn Noc Penfro ac mewn safleoedd diwydiannol eraill yn agos at y Ddyfrffordd yn y Dociau. Yn Nociau Aberdaugleddau, mae defnyddiau tir presennol yn cynnwys cyflogaeth, hamdden, marina, preswyl, manwerthu, angori cychod pysgota a pheirianneg gysylltiedig â phorthladdoedd. Mae cynigion eginol am ddatblygiadau amlddefnydd ychwanegol yn yr ardal hon ac mae safleoedd diwydiannol eraill yn nhref Aberdaugleddau ac yn Neyland gerllaw. Fe all ad-drefnu defnyddiau tir yn Noc Penfro ac Aberdaugleddau gael eu cynnig ar y cyd â chynigion datblygu trawsffurfiol.

6.57 Terfynfa fferi yw Harbwr Abergwaun yn bennaf ac, fel Doc Penfro, mae'n darparu cysylltiadau â Gweriniaeth Iwerddon.

6.58 Yn Harbwr Abergwaun (Wdig) ac ym Mhorthladd Aberdaugleddau, bydd gwelliannau i gyfleusterau a seilwaith yn elwa'r economi lleol a chenedlaethol ac yn dod â buddiannau i wledydd eraill, yn enwedig Gweriniaeth Iwerddon.

6.59 Dynodwyd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn 2013 ac mae'n rhoi buddiannau cyllidol i fusnesau sy'n lleoli o fewn ffiniau'r Ardal. Mae gan yr Ardal Fenter bedair ffin ar wahân, un o gwmpas Aber Cleddau ac yn ymgorffori tir yn ardaloedd Aberdaugleddau, Doc Penfro a Neyland, un yng Ngwdig, un ym Maes Awyr Hwlffordd / Parc Diwydiannol Llwyn Helyg ac un yn Nhrecŵn.

6.60 Mae Polisi SP 12 yn berthnasol mewn ardal ofodol ddiffiniedig wedi'i seilio ar ac yn ymgorffori safleoedd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae'r ardal ofodol a ddiffiniwyd yn cydnabod yr ardaloedd a allai fod yn addas ar gyfer y ffurfiau hyn o ddatblygiad, ond nid yw'r polisi'n neilltuo'r tiroedd hyn yn neilltuol ar gyfer datblygu o'r fath, nac awgrymu fod yr holl gynigion yn dderbyniol. Bydd derbynioldeb unrhyw gynigion yn dibynnu ar y graddau y maent yn cyd-fynd â Pholisïau Cyffredinol manwl a bydd ystyriaethau tirweddol, amgylcheddol ac

amwynderol yn allweddol wrth benderfynu a yw cynigion yn y mannau hyn yn briodol neu beidio. Er mwyn osgoi amheuaeth a phwrpas y polisi hwn, nid yw'r cynigion egni sydd â chysylltiad uniongyrchol â lleoliadau'r porthladd yn cynnwys cynhyrchu egni gwynt.

6.61 Bydd cynigion unigol dan bolisi SP 2 yn gofyn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect i ystyried eu heffeithiau arwyddocaol tebygol ar nodweddion yr ACA.

6.62 Y marc distyll cymedrig yw terfyn rheolaeth gynllunio tua'r môr fel arfer (nod canol y sianel yn Noc Penfro). Mae cynigion datblygu islaw'r nod hwn (neu heibio nod canol y sianel yn Noc Penfro) oddi allan i gwmpas y drefn gynllunio a chânt eu rheoleiddio yn ôl darpariaethau deddfwriaeth arall.

**SP 13 Darparu Tir Cyflogaeth**

Bydd darpariaeth ar gyfer datblygu tir cyflogaeth ar gymysgedd o safleoedd cyflogaeth strategol a lleol.

Bydd safleoedd cyflogaeth strategol yn cael eu nodi yn y Cynllun Adneuo, ond maent yn debygol o gael eu nodi yn yr ardaloedd canlynol:

Trecŵn

Aberdaugleddau, gan gynnwys safleoedd cysylltiedig â'r Ddyfrffordd

Doc Penfro, gan gynnwys safleoedd cysylltiedig â'r Ddyfrffordd

Hwlffordd

Bydd Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8 yn cael eu caniatáu ar y safleoedd hyn, ynghyd ag unrhyw ddefnyddiau cydnaws eraill.

*Mater Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, E ac I.*

6.64 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 23, bydd y Cynllun Adneuo'n darparu amrywiaeth o safleoedd mewn mannau cynaliadwy sy'n addas ar gyfer datblygu at ddibenion menter a chyflogaeth.

6.65 Yn ôl Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008, y bwriad yw datblygu economi mwy amrywiol a mentergar seiliedig ar wybodaeth fel blaenoriaeth strategol ac mae'n nodi bod ynni a'r amgylchedd yn allweddol i lwyddiant yn y maes hwn. Y disgwyl yw y bydd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru'n rhoi rhagor o wybodaeth am uchelgeisiau economaidd ac amgylcheddol ar gyfer Cymru a Sir Benfro.

6.66 Sefydlwyd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn 2015. Caiff cymhellion cyllidol eu cynnig i fusnesau yn yr Ardal hon. Fel y nodwyd yn y cyfiawnhad rhesymedig i bolisi SP 12, mae'n cynnwys pedair ardal ofodol arwahanol, sef ar hyd Aber Cleddau, yn Hwlffordd, yn Nhrecŵn ac yn Harbwr Abergwaun, Wdig. Yng nghyfnod y Cynllun Adneuo, mae safleoedd strategol yn debygol o gael eu nodi yn y mannau hyn.

6.67 Bydd polisïau cyffredinol ar Warchod a Gwella Bioamrywiaeth yn arbennig o berthnasol i gyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol, er mwyn sicrhau osgoi effaith andwyol sylweddol trwy gynnal a gwella rhywogaethau gwarchodedig a blaenoriaethol, eu cynefinoedd a'u safleoedd dynodedig. Fe all darpariaethau lliniaru fod yn briodol mewn rhai achosion. Mae ystyriaethau allweddol eraill yn debygol o gynnwys amwynder (GN.1) ac effeithiau ar yr amgylchedd a thirwedd (SP 11 a GN.1).

6.68 Bydd safleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu dynodi mewn amrywiaeth o fannau eraill yn y Prif Drefi ac mewn rhai Anheddau Gwledig yn ogystal. Bydd hyn yn cynorthwyo strategaeth twf a dosbarthiad y Cynllun mewn ffordd gynaliadwy.

6.69 Caiff datblygu eiddo cyflogaeth mewn anheddau gwledig ei hybu, gan sicrhau y bydd mwy o gyfleoedd i'r boblogaeth wledig weithio'n nes at eu cartrefi neu gartref a lleihau'r galw am deithiau cysylltiedig â gwaith i brif drefi Sir Benfro. Mae gan Sir Benfro nifer mawr o unigolion hunangyflogedig eisoes – llawer ohonynt yn gweithio o'u cartrefi – a bydd hyn yn cael ei annog ymhellach. Bydd gwell seilwaith a rhwydweithiau cludiant a chyfathrebu'n bwysig i hybu twf o'r fath, gan gynnwys dal i wella'r band eang sydd ar gael a mynediad at y rhwydwaith ffonau symudol 4G.

6.70 Yn ogystal â safleoedd cyflogaeth newydd dynodedig, bydd polisi seiliedig ar feini prawf yn rhoi cyfleoedd i wneud cynigion cyflogaeth newydd ar dir heb ei neilltuo mewn neu sy'n cyd-fynd yn dda ag anheddau ac mewn mannau gwledig pan fo lleoliad o'r fath yn hanfodol i'r fenter. Bydd hyn yn cael ei bennu fel Polisi Cyffredinol yn y Cynllun Adneuo.

**SP 14 Hierarchaeth Fanwerthu**

Yr hierarchaeth fanwerthu yn Sir Benfro yw

| | |
|---|---|
| Canol Tref Isranbarthol | Hwlffordd |
| Canol Tref | Doc Penfro, Penfro, Aberdaugleddau, Abergwaun, Arberth |
| Canolfan Fanwerthu Leol | Wdig, Neyland, Crymych, Treletert, Johnston, Cilgeti |

Dylai holl ddatblygiad manwerthu a masnachol newydd gyd-fynd o ran maint a natur gyda maint a chymeriad Canol y Dref a'i swyddogaeth yn yr hierarchaeth fanwerthu a chyd-fynd ag unrhyw Fframwaith Adfywio Strategol.

Ni fydd cynigion a fyddai'n tanseilio'r hierarchaeth fanwerthu neu fframweithiau adfywio ar gyfer canol trefi'n cael eu caniatáu.

*Mater Allweddol Cysylltiedig: Ymosod ar Wledigrwydd*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B,G ac I*

6.71 Bydd disgwyl i gynigion manwerthu a masnachol adlewyrchu haen yr hierarchaeth y mae'r cynnig ynddi o ran maint a natur. Diffiniwyd yr hierarchaeth gan ystyried rhan a swyddogaeth, graddfa, amrywiaeth y gwasanaethau a chyfleusterau manwerthu, masnachol ac eraill a'r dalgylch. [29]

6.72 Dynodwyd Ardaloedd Cadwraeth yng Nghanol holl Drefi ac mae cynnal a chyfoethogi cymeriad unigol trefi'n gorfod bod yn elfen bwysig o unrhyw gynnig datblygu.

6.73 Hwlffordd yw prif dref Sir Benfro ac mae'n ganolfan fanwerthu a gwasanaethu bwysig ar gyfer amrywiaeth o siopa, gwasanaethau cyhoeddus ac ariannol, hamdden a chyflogaeth. Dylai cynigion yn Hwlffordd fod yn gydnaws ag Uwchgynllun Hwlffordd 'Gweledigaeth o'r Dyfodol', a chynnal bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref.

6.74 Mae rhannau a swyddogaeth canol trefi Doc Penfro a Phenfro'n gyflenwol i ryw raddau, gyda Doc Penfro'n darparu'r brif gyrchfan siopa am fwyd a chanol hanesyddol Penfro'n cael cymorth gwariant ymwelwyr.

6.75 Cafodd Canol Tref Aberdaugleddau anhawster cadw cymysgedd cryf o ddefnyddiau ac mae'n gwasanaethu anghenion y gymuned leol yn bennaf. Tra bo canol y dref wedi cadw swyddogaeth siopa heblaw am fwyd, mae angen ailddatblygu, yn enwedig yn y pen gorllewinol, a chrynhoi canol y dref.

[29] Astudiaeth Gallu Manwerthu Rhanbarthol De-orllewin Cymru, Chwefror 2017. Argymhellion Polisi.

6.76 Erys swyddogaeth Canol Tref Abergwaun yn bwysig i drigolion lleol fel cyrchfan siopa am fwyd ac mae'n darparu swyddogaeth bwysig i'r ardal wledig ehangach.

6.77 Arberth yw'r lleiaf o ganol y trefi ac mae'n cyflawni swyddogaeth fanwerthu gloer i drigolion lleol a chefn gwlad ehangach. Bydd cynigion ar gyfer yr hen ysgol gynradd yn cyflwyno amrywiaeth o ddefnyddiau cymunedol, manwerthu a masnachol cyflenwol.

6.78 Yn y bôn, mae Canolfannau Manwerthu Lleol yn darparu ar gyfer anghenion arferol y gymuned leol. Ni ddylai cynigion mewn Canolfannau Manwerthu Lleol danseilio nac effeithio ar fywiogrwydd na hyfywedd Canol Trefi na'u strategaethau adfywio, ond dylent ddarparu safon briodol o wasanaeth ar gyfer yr anheddau hyn a'u dalgylchoedd gwledig lleol.

**SP15 Economi Ymwelwyr**

Bydd cynigion datblygu cysylltiedig â'r economi ymwelwyr yn cael eu cefnogi ond eu bod mewn man priodol, yn cyfrannu at amrywiaeth ac ansawdd y llety ac atyniadau, ac yn parchu a gwarchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a chymunedau oddi amgylch.

Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar ac Ymosod ar Wledigrwydd, Gwarchod Ein Hamgylchedd

Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, H a J.

6.80 Mae amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro wedi denu ymwelwyr ers llawer blwyddyn, i'r Parc Cenedlaethol ac ymhellach o'r arfordir at afonydd, mynyddoedd, treftadaeth a threfi a phentrefi hanesyddol y Sir. Yr economi ymwelwyr erbyn hyn yw un o sbardunau mwyaf arwyddocaol yr economi lleol ac mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro'n cydnabod hyn ac yn hybu agwedd gadarnhaol at gyfleusterau twristiaeth o safon, mewn lle da ac o ddyluniad da, sy'n cynnal arallgyfeirio amaethyddol ac ailddefnyddio tir a chyrff dŵr a ddatblygwyd o'r blaen.

6.81 Canolbwynt ar gyfer y dyfodol yw darparu diwydiant cryf ac amrywiol gydol y flwyddyn, gan greu cyrchfan o safon lle bydd ymwelwyr eisiau dod eto. Nodwedd hanfodol o gyflawni hyn yw sicrhau bod unrhyw ddatblygu sy'n digwydd yn cyfoethogi'r hyn sy'n denu ymwelwyr – ansawdd yr amgylchedd. Er mwyn sicrhau cyflawni hyn, mae gofyn i gynigion ar gyfer llety, atyniadau a chyfleusterau hamdden ymwelwyr, yn enwedig yng nghefn gwlad, fod yn rhai o safon a dangos bod lleoliad o'r fath yn hanfodol.

6.82 Bydd Polisïau Cyffredinol y CDLl hwn yn y Cyfnod Adneuo'n pennu'r mannau fydd yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygu a'r meini prawf y bydd disgwyl i gynigion eu cyrraedd er mwyn gwella cynaliadwyedd Sir Benfro fel cyrchfan ymwelwyr.

**SP16 Mwynau**

Bydd cyfraniad at yr angen cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am gyflenwad di-dor o fwynau yn cael ei wneud drwy'r canlynol:

1. Cynnal cronfa o graig galed a thywod a gro drwy gydol ac ar ddiwedd cyfnod y Cynllun;
2. Diogelu adnoddau hysbys o lo ac agregau (gan gynnwys craig galed a thywod a gro) rhag datblygiad parhaol, mewn mannau oddi allan i ffiniau anheddiad;
3. Diogelu mannau glanio tywod a gro a garthwyd o'r môr;
4. Creu clustogfeydd o gwmpas safleoedd cynhyrchu mwynau presennol i ddiogelu gweithredwyr chwareli a'r rhai sy'n meddiannu neu'n defnyddio tir cyfagos; a
5. Cefnogi ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Cymunedau Dyfeisgar ac Ymosod ar Wledigrwydd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B a D.*

6.83 Mae'r polisi hwn yn diogelu adnodd mwynol ardal y Cynllun (glo, craig galed, tywod a gro) a glanfeydd ar gyfer gweithio alltraeth, yn unol â pholisi cenedlaethol a rhanbarthol, i sicrhau bod yr adnodd yn Sir Benfro'n gallu cyfrannu at y galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am fwynau. Mae rhestr o safleoedd presennol gweithio mwynau o fewn awdurdodaeth gynllunio Cyngor Sir Penfro yn Atodiad 3 i Bapur Cefndirol Mwynau CDLl 2.

6.84 Yn ôl Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 ar Agregau (2004) mae banciau tir gofynnol i'w cadw drwy gydol cyfnod y Cynllun (cyflenwad 10 mlynedd o graig galed a chyflenwad 7 mlynedd o dywod a gro). Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun, yn 2033, mae hynny'n golygu y bydd disgwyl i adnoddau craig galed fod yn ddigonol i bara tan 2043 a bydd disgwyl i adnoddau tywod a gro fod yn ddigonol i bara tan 2040.

6.85 Mae'r wybodaeth ym Mhapur Cefndirol Mwynau CDLl 2 y dangos bod y banc tir ar gyfer craig galed yn doreithiog, gyda phob gobaith y bydd banc tir hael yn aros ar ddiwedd cyfnod y cynllun.

6.86 Erbyn hyn caiff y banc tir tywod a gro daearol a dosbarthiad y ddarpariaeth i ddiwallu anghenion y dyfodol eu hystyried yn rhanbarthol. Mae yna safleoedd cynhyrchu tywod a gro presennol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, safleoedd a thiroedd neilltuedig ychwanegol yng Ngheredigion a pheth cynhyrchu ar raddfa fechan yn Sir Gâr. Fodd bynnag, mae'r banc tir tywod a gro rhanbarthol braidd yn gyfyngedig mewn cymhariaeth â'r graig galed sydd ar gael. Bydd cynhyrchu tywod a gro yn y ddau safle cynhyrchu presennol yn y Parc Cenedlaethol yn dod i ben maes o law ac mae cynhyrchu a safleoedd eraill a neilltuwyd yn y rhanbarth yn gyfyngedig. Mae angen safleoedd cynhyrchu daearol newydd o fewn y rhanbarth ond oddi allan i'r Parc Cenedlaethol. Bydd angen i'r ateb fod yn gyflenwol i agweddau CDLl yr awdurdodau cymdogol hyn.

Caiff y wybodaeth ddiweddaraf ar fanciau tir, yn deillio o Arolwg Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) 2016, ei chynnwys yn y Papur Cefndirol Mwynau sy'n ategu CDLl 2.

6.87 Os na fydd safleoedd newydd cynhyrchu tywod a gro'n ymddangos yn Sir Benfro trwy gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol addas ar gyfer CDLl 2 (neu mewn ymateb i lythyrau a anfonwyd gydag arolygon blynyddol SWRAWP yn 2017 a 2018), fel sail i neilltuo tir, efallai y bydd angen dal i ddefnyddio dull Ardal Chwilio am safleoedd newydd cynhyrchu tywod a gro yn ardal gynllunio'r Cyngor. Heb ddefnyddio'r dull hwn, yna bydd polisi seiliedig ar feini prawf yn CDLl 2 fel sail i gloriannu unrhyw geisiadau cynllunio mwynau annisgwyl yn y dyfodol.

6.88 Daw rhai o'r adnoddau tywod a gro i Dde-orllewin Cymru o'r môr. Mae glanfa tywod a gro yn Noc Penfro lle caiff y cyflenwadau hyn eu glanio ac mae'r Cynllun yn ei diogelu.

6.89 Mae gofyniad i warchod safleoedd presennol chwareli rhag defnyddiau anghydnaws ar dir cyfagos, gan sicrhau lleoli datblygiadau y gallai chwarela effeithio er gwaeth arnynt oddi allan i glustogfa ddiffiniedig. Yn yr un modd, fe all clustogfeydd chwareli sicrhau nad yw defnyddiau gerllaw'n effeithio er gwaeth ar gynigion ymestyn chwareli. Caiff y pellterau clustogi eu cyflwyno yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru gan dderbyn, pan fo'r rhain yn gorgyffwrdd ardal adeiledig bresennol, y gall fod angen gwneud eithriadau. Bydd clustogfeydd y chwareli sy'n cael eu dangos ar Fap Cynigion CDLl 2 yn cael eu diweddaru i adlewyrchu caniatâd a roddwyd ers paratoi CDLl 1.

6.90 Mae ailddefnyddio agregau eilaidd i'w ddymuno, ond mae ffynonellau mwyaf deunydd o'r fath yn debygol o fod mewn safleoedd diwydiannol sylweddol oddi allan i Sir Benfro.

6.91 Bydd trwyddedu adnoddau olew a nwy ar y lan a ger y lan y gellid eu tynnu trwy ddulliau anghonfensiynol yn dod yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn hydref 2018. Mae polisi Cymru yn y maes hwn yn dechrau ymddangos ac mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnig peidio â rhoi unrhyw drwyddedau petrolewm newydd yng Nghymru a pheidio â chefnogi ceisiadau am drwyddedau petrolewm drwy hollti hydrolig (ffracio). Nid oedd canlyniad ymgynghori ar y materion hyn yn hysbys ar adeg drafftio Strategaeth Ddewisol CDLl 2. Bydd y Cyngor yn ystyried agwedd gyffredinol Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

6.92 Bydd cynigion ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau'n cael eu cefnogi, pan fo'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion amgylcheddol. Fe all agregau eilaidd ychwanegu at gyflenwadau o ffynonellau elfennol. Fodd bynnag, nid yw'r prif ffynonellau cyflenwi agregau eilaidd yng Nghymru yn Sir Benfro.

6.93 Ar safleoedd cwsg, mae gofyniad bellach i asesu tebygolrwydd gweithio pob safle o'r fath yng nghyfnod y Cynllun, yn amodol ar gwblhau adolygiad dechreuol o amodau cynllunio a chyflwyno Datganiad Effaith Amgylcheddol. Os mai tebygolrwydd ailddechrau yw'r casgliad, mae modd gwrthbwyso cynhyrchiad o'r safle dan sylw gyferbyn â'r angen i neilltuo tir yn y dyfodol.

**SP17 Y Gymraeg**

Mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig, fel sy'n cael eu nodi ar y Map Cynigion, bydd angen asesu effaith debygol cynigion datblygu mawr annisgwyl[30] ar y Gymraeg.

Bydd datblygu'n cael ei reoli'n ystyriol mewn ardaloedd lle mae gan y Gymraeg ran sylweddol yn y gymuned leol. Gall hyn gynnwys y lleoliad, cyfnodedd, arwyddion a mesurau lliniaru priodol eraill.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Cymunedau Dyfeisgar*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B, C, F.*

6.94 Rhan bwysig o'r hyn sy'n gwneud Sir Benfro'n arbennig i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yw ei diwylliant ieithyddol.

6.95 Cymraeg 2050 yw strategaeth Gweinidogion Cymru ar hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Mae'n cyflwyno agwedd hirdymor Llywodraeth Cymru at gyflawni gweledigaeth o'r Gymraeg yn ffynnu a miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Caiff tair thema strategol eu nodi i gynorthwyo cyflawni'r weledigaeth hon.

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu defnyddio'r Gymraeg
- Creu amgylchiadau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

6.96 Bwriad y strategaeth yw creu amgylchiadau ffafriol ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg o fewn y teulu, yn y gweithle, trwy weithgareddau lleol neu gyda rhwydweithiau ehangach. Mae'r strategaeth yn cydnabod swyddogaeth y drefn cynllunio defnydd tir wrth gyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg trwy greu amgylchiadau addas ar gyfer cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Fe all hyn gynnwys cynnal seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg a chynnal economi cynaliadwy ffyniannus yng nghefn gwlad. Fe all penderfyniadau ynghylch math, maint a lleoliad datblygiad mewn cymuned benodol gael effaith ar ddefnyddio iaith.

6.97 Ledled y Sir roedd 19.2% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ar adeg Cyfrifiad 2011. Mae hyn yn is na 21.8% o'r boblogaeth ar adeg y Cyfrifiad 2001[31] ond yn uwch nag yn 1991 pan oedd yn 18.3%.

6.98 Fodd bynnag, mae cryn amrywiad daearyddol ym mynychder siaradwyr Cymraeg, gyda chyfran fach iawn yn ne'r Sir a llawer mwy o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd y sir.

---

[30] Datblygiadau mawr annisgwyl yw rhai na neilltuwyd tir ar eu cyfer yn y Cynllun Datblygu Lleol ac sy'n cael eu diffinio fel arfer gyda 10 neu fwy o anheddau preswyl, neu ddatblygiadau dros 1,000 metr sgwâr neu 1 hectar.


[31] https://statscymru.llyw.cymru/Catalog/Y-Gymraeg/SiaradwyrCymraeg-fesul-ALl-OedEhangach-Cyfrifiad2001a2011

6.99 Mae’r polisi hwn yn pwysleisio’r angen i gynnal a gwella proffil ieithyddol a diwylliannol y cymunedau lleol hynny lle mae’r Gymraeg yn chwarae rhan sylweddol, a bydd yn berthnasol mewn cymunedau lle mae mwy nag 20% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

6.100 Gwnaed Arfarniad o Gynaliadwyedd y Strategaeth Ddewisol, gan gynnwys yr effeithiau tebygol ar ddefnyddio’r Gymraeg. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â TAN 20 ‘Cynllunio a’r Gymraeg’ Hydref 2017 ac unrhyw Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu (CCA) a ddaw, a fydd yn nodi mesurau lliniaru priodol ar gyfer neilltuo tir yn y Cynllun.

6.101 Pan fo cais am safle annisgwyl ar gyfer datblygiad mawr mewn ardal lle mae’r Gymraeg yn arwyddocaol, bydd Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith yn cael ei baratoi ac efallai y bydd angen mesurau lliniaru. Gallai’r rhain gynnwys cyfnodedd, arwyddion a chyfraniadau adran 106 i gynnal cymunedau Cymraeg.

Ffigur 3: Mynychder Siaradwyr Cymraeg fesul Cyngor Cymuned (Cyfrifiad 2011)



**SP 18 Seilwaith Cludiant a Hygyrchedd**

Bydd gwelliannau i’r seilwaith cludiant presennol, fydd yn cynyddu hygyrchedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig yn gynaliadwy, yn cael eu cefnogi.

Bydd llwybrau ar gyfer gwelliannau dynodedig i seilwaith cludiant yn cael eu diogelu.

Bydd cynlluniau lonydd cerdded a beicio sy’n cael eu cynnig mewn perthynas â Deddf Teithio Llesol (Cymru), 2013, yn cael eu cefnogi.


*Materion Allweddol Cysylltiedig: Cymunedau Dyfeisgar ac Ymosod ar Wledigrwydd*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcan I.*

6.102 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18, mae’r polisi hwn yn nodi ac yn diogelu gwelliannau arfaethedig i seilwaith cludiant, fydd yn cynnal twf economaidd. Rhaglennwyd a chyllidwyd y gwelliannau a nodwyd yn y Cynllun ac ar y Map Cynigion ac maent yn debygol o ddigwydd yng nghyfnod y Cynllun. Mae’r rhain yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yng Nghydgynllun Cludiant Lleol De-orllewin Cymru (2015-2020) (a baratowyd ar y cyd rhwng Cyngor Sir Penfro, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Gâr) a rhaglenni Llywodraeth Cymru o ran Cefnffyrdd a’r Cyngor Sir o ran Ffyrdd Sirol.

6.103 Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru), 2013, i rym yn 2014. Mae’n gofyn mapio llwybrau cerdded a beicio presennol ac uchelgeisiol ledled Cymru. Cynigiwyd llawer o lwybrau cerdded a beicio newydd a byddant yn dal i gael eu cynnig o ganlyniad i’r Ddeddf hon a bydd y Cyngor yn cefnogi cynlluniau o’r fath pan fyddant yn cyd-fynd â pholisïau eraill y CDLl.

Ffigur 4: Rhwydwaith Trafnidiaeth Allweddol



**SP 19 Atal a Rheoli Gwastraff**

Bydd darpariaeth briodol ar gyfer rheoli gwastraff neu gyfleusterau gwared yn cael ei gwneud yn y Cynllun.

Yn y lle cyntaf bydd y Cynllun yn ceisio atal creu gwastraff. Lle nad oes modd atal, bydd yr effaith ar yr amgylchedd yn cael ei leihau i'r eithaf a'r mwyaf yn cael ei wneud o ddefnyddio gwastraff fel adnodd, trwy ei ailddefnyddio a'i ailgylchu. Dim ond mewn achosion lle nad oes gwell dewis fydd gwared yn cael ei ystyried, a hynny drwy'r dull mwyaf cynaliadwy posibl.

*Mater Allweddol Cysylltiedig: Gwarchod Ein Hamgylchedd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcan K.*

6.104 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Ewropeaidd a'r Gyfarwyddeb Tirlenwi yw sail atal a rheoli gwastraff yng Nghymru. Mae darpariaethau'r ddwy gyfarwyddeb hyn yn cael eu hadlewyrchu yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar wastraff, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' (TZW). Mae'r ail ddogfen yn cyflwyno fframwaith ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff yng Nghymru hyd at 2050 gyda chymorth amrywiol Gynlluniau Sector, a'r mwyaf arwyddocaol ohonynt o safbwynt cynllunio defnydd tir yw'r 'Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd'. TZW a'r Cynlluniau Sector yw'r fframwaith yng Nghymru ar gyfer lleihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a hyrwyddo llawer o ailgylchu.

6.105 Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar wastraff yn cael ei gyflwyno ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) ac yn Nodyn Cyngor Technegol 21 ar Wastraff (TAN 21). Mae'r pwyslais ar atal gwastraff rhag digwydd yn y lle cyntaf a, lle nad oes modd gwneud hyn, ar adennill y deunyddiau gwastraff i ganiatáu eu hailddefnyddio lle bo hynny'n ymarferol. Ystyriaethau pwysig yw lleihau effeithiau amgylcheddol andwyol, osgoi peryglu iechyd dynol, gwarchod tirweddau dynodedig a safleoedd gwarchod natur a diogelu amwynder trigolion lleol.

6.106 Paratowyd Papur Cefndirol ar Wastraff i ategu polisïau a chynigion gwastraff CDLl 2.

6.107 Seiliwyd yr agwedd a gymrwyd at reoli gwastraff yn ardal gynllunio'r Cyngor ar y dogfennau polisi uwch. Agweddau allweddol yw:

- Ceisio atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf;
- Sicrhau bod rheoli gwastraff yn adlewyrchu'r Hierarchaeth Wastraff;
- Sicrhau bod yr egwyddor agosrwydd yn cael ei hadlewyrchu mewn penderfyniadau ynghylch cynigion rheoli gwastraff sy'n cael eu cynnig yn ardal gynllunio'r Cyngor;
- Nodi safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd (dan do ac awyr agored);

- Pennu’r meini prawf ar gyfer ystyried holl geisiadau gwastraff, gan gynnwys y rhai sy’n cael eu cynnig ar safleoedd a neilltuwyd / a ddynodwyd a heb eu neilltuo;
- Lleihau effeithiau gweithgareddau rheoli gwastraff ar yr amgylchedd, y rhwydwaith cludiant, iechyd y cyhoedd, amwynder lleol a’r dirwedd;
- Gwneud y defnydd gorau oll o adnoddau gwastraff; a
- Sicrhau, pan nad oes dewis ond gwared i’r tir, bod digon o wagle ar gael a bod safonau derbyniol yn cael eu cyrraedd o ran effeithiau ar yr amgylchedd, cludiant, iechyd y cyhoedd, amwynder lleol a’r dirwedd.

6.108 Y polisi strategol sy’n pennu’r fframwaith ar gyfer y pwyntiau y cyfeiriwyd atynt uchod a bydd polisïau cyffredinol yn manylu ar elfennau penodol.

# 7. Polisïau Cyffredinol

**GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol**

Caniateir datblygu lle caiff y meini prawf canlynol eu cyrraedd:

1. Bod natur, lleoliad, gosodiad a graddfa'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â maint a chymeriad y safle a'r ardal lle mae;

2. Na fyddai'n peri effaith andwyol sylweddol ar amwynder lleol o ran effaith weledol, colli goleuni neu breifatrwydd, arogleuon, mwg, tarthau, llwch, ansawdd yr awyr neu gynnydd mewn sŵn neu ddirgryniad;

3. Na fyddai'n effeithio'n sylweddol er gwaeth ar gymeriad, ansawdd neu amrywiaeth tirwedd, gan gynnwys rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac awdurdodau cyfagos;

4. Ei fod yn parchu ac yn gwarchod yr amgylchedd naturiol gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig;

5. Y byddai'n digwydd mewn man hygyrch, gan ymgorffori egwyddorion cludiant cynaliadwy a hygyrchedd, ac na fyddai'n peri effaith andwyol ar ddiogelwch priffyrdd nac yn creu mwy o draffig na gallu'r rhwydwaith priffyrdd i'w gynnwys;

6. Bod modd darparu seilwaith gwasanaethau, mynediad a pharcio angenrheidiol a phriodol;

7. Na fyddai'n achosi neu arwain at niwed annerbyniol i iechyd a diogelwch;

8. Na fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar ansawdd dŵr;

9. Mae unrhyw lygredd ysgafn yn angenrheidiol a theg, ac wedi'i leihau trwy ostyngiad addas ac

10. Na fyddai'n cyfrannu at ymdoddiad gwahanol anheddau nac yn creu neu atgyfnerthu datblygiad hirgul.

7.1 Diben y polisi hwn yw rhoi fframwaith ar gyfer cloriannu effeithiau posibl datblygiad. Bydd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â pholisïau eraill y cynllun i benderfynu a yw'r datblygiad arfaethedig yn briodol.

7.2 Bydd y polisi'n gweithredu fel peirianwaith i sicrhau bod datblygiad yn briodol i'w amgylchoedd a'i osodiad / cyd-destun ehangach. Rhaid i gynigion barchu gallu anheddau unigol i gynnwys twf o ran graddfa a chyflymder datblygu, ac mewn perthynas â sefyllfa'r anheddiad yn yr hierarchaeth. Yng nghefn gwlad, rhaid i gynigion ddangos bod angen lleoliad o'r fath ar gyfer y datblygiad a bod natur y cynnig yn briodol mewn ardal wledig. Rhaid i raddfa, natur a gosodiad cynnig fod yn briodol i'r lleoliad arfaethedig a pheidio â thanseilio cymeriad naill ai'r safle neu'r fro.

7.3 Bydd amwynder pobl yn eu cartrefi, gweithleoedd ac ardaloedd adloniadol yn cael ei warchod rhag datblygu niweidiol, amhriodol. Diffiniad amwynder yw'r elfennau hynny o olwg a chynllun anheddau a chefn gwlad sy'n creu bywyd dymunol.

7.4 Bydd amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro'n cael ei warchod rhag datblygu amhriodol a, lle bo modd, ei wella. Mae amrywiol ddynodiadau, gan gynnwys dynodiadau natur, daearegol a geomorffolegol, Lloriau Trefi a Phentrefi, Tir Comin a Lletiroedd Glas yn cyfrannu at warchod cymeriad tiroedd glas Sir Benfro a'u cyffiniau. Ar ben hynny mae gan ardal y Cynllun lawer o dirweddau gweithredol deniadol sy'n dibynnu ar reoli tir ac arferion cadwraeth cadarn a chydberthynas ffisegol a gweithredol agos gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro cyfagos. Felly, rhaid i unrhyw gynnig datblygu ddangos ei fod yn parchu'r amgylchedd naturiol, cymeriad, cydlyniad a chyfanrwydd y dirwedd, rhywogaethau brodorol, priddoedd, a dyfroedd codi a dyfroedd arwyneb. Bydd tirweddu a phlannu ystyriol, a chreu, cynnal a rheoli nodweddion o'r dirwedd sy'n bwysig i fywyd gwyllt yn cael eu hybu. Lle byddai cynnig i ddatblygu'n peri colli nodwedd tirwedd leol rhaid iddo ddangos y byddai hyn yn cael ei wrthbwyso gan ei effaith gadarnhaol ar gymeriad neilltuol yr ardal at ei gilydd.

7.5 Mae coetir trefol a gwledig, gorchudd o goed a gwrychoedd yn cyfrannu at nodwedd weledol ac amrywiaeth y dirwedd, at gyfleoedd adloniadol ac addysgol ac at fuddiannau amgylcheddol gwirioneddol fel cynefinoedd blaenoriaethol a thiroedd porthi ychwanegol neu well, lloches, cysgod, gwell hidlo carbon, microhinsoddau lleddfol a gwella ansawdd yr awyr. Dylai cynigion datblygu ddefnyddio nodweddion naturiol y safle. Bydd datblygu a fyddai'n effeithio ar goed, coetir a/neu wrychoedd yn gofyn arolwg coedyddiaeth a dylai amcanu at gadw a diogelu'r nodweddion hyn yn ddigonol cyn, yn ystod ac ar ôl datblygu. Dylai darpar ddatblygwyr cynlluniau a all effeithio ar Goetir Hynafol neu Led-naturiol edrych ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol cyn aflonyddu ar unrhyw safle. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru cyn awdurdodi datblygu ar safleoedd sy'n effeithio ar Goetir Hynafol neu Led-naturiol. Dan amgylchiadau eithriadol, pan fo'r angen am ddatblygiad yn fwy na gwerth y bywyd gwyllt a/neu amwynder, rhaid cytuno ar rywbeth o safon yn eu lle cyn eu dileu. Mae gan Sir Benfro gasgliad llawn o haenau LANDMAP gyda sicrwydd ansawdd sy'n gwerthuso'r dirwedd weledol a synhwyraidd, y dirwedd ddiwylliannol, cynefinoedd tirwedd, y dirwedd ddaearegol a'r dirwedd hanesyddol a chaiff ceiswyr eu hannog i ddefnyddio'r wybodaeth hon, ynghyd â pholisi cynllunio cenedlaethol, i ysbrydoli eu cynigion oherwydd y bydd yn cael ei defnyddio wrth benderfynu ar ddatblygiadau.

7.6 Rhaid i ddatblygiadau fod o faint y gall y rhwydwaith ffyrdd cyfagos ei wasanaethu, heb anfanteisio'r rhwydwaith priffyrdd na nodweddion amgylcheddol y ffordd. Lle bo angen, bydd datblygwyr yn talu am welliannau sy'n ofynnol i wneud cynigion datblygu'n dderbyniol. Dylai holl ddatblygu newydd fod yn hygyrch iawn er bod gwasgariad anheddau'n golygu y bydd mynediad ceir yn parhau'n bwysig mewn llawer rhan o Sir Benfro. Mae cerdded a beicio'n bwysig, yn enwedig mewn anheddau, i leihau nifer y teithiau byr mewn ceir. Bydd gofyn i ddatblygwyr ystyried lleoliad, dyluniad a threfniadau mynediad yn ofalus. Bydd Asesiadau Cludiant yn ofynnol ar gyfer cynigion sy'n debygol o gynhyrchu teithiau ychwanegol sylweddol, i ddangos bod egwyddorion cludiant cynaliadwy a hygyrchedd yn rhan o'r datblygiad, gan gynnwys lle i barcio beiciau a mannau 'gollwng' ar gyfer bysiau. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Barcio yn cynghori

ar ddarpariaeth barcio briodol ar gyfer mathau amrywiol o ddatblygu mewn gwahanol fannau, gan ddibynnu ar ddarpariaeth bresennol gwasanaethau.

7.7 Mae seilwaith gwasanaethau'n cynnwys pacio, cyflenwadau pŵer, dŵr, dull o wared carthion, gwared dŵr arwyneb a thelathrebu. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen i ddatblygwr gyfrannu at gost cynyddu seilwaith gwasanaethau mewn ardal lle mae prinder.

7.8 Pan fo pryderon y byddai cynnig yn achosi niwed i iechyd a diogelwch trwy halogiad, effaith andwyol ar ansawdd yr awyr, ansadrwydd tir, llifogydd neu erydiad, bydd cyngor proffesiynol yr awdurdod perthnasol yn cael ei geisio. Pan fo pryderon o'r fath yn berthnasol i lifogydd afonol neu arfordirol a/neu erydiad, bydd darpariaethau'r Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol a/neu Gynllun Rheoli Llifogydd y Dalgylch yn berthnasol wrth ystyried y materion iechyd a diogelwch. Mewn rhai achosion, fe all problemau disgwyliedig ar y safle neu oddi ar y safle beri bod datblygu'n amhriodol; mewn achosion eraill, fe all fod modd datblygu os oes lliniaru ar gael, fel bod y cynnig yn gallu gwrthsefyll y problemau a nodwyd. Ni neilltuwyd unrhyw dir ar gyfer tai o fewn parthau llifogydd C1 neu C2 yn y Cynllun. Neilltuwyd ychydig o dir arall o fewn parthau llifogydd C1 neu C2. Lle lle bo perygl llifogydd afonol neu ddŵr arwyneb i dir a neilltuwyd, caiff hyn ei nodi yn y CCA Safleoedd Datblygu, gyda gofynion yn pennu faint o wybodaeth i'w rhoi ar adeg gwneud cais.

7.9 Bydd penderfyniadau ynghylch cynigion o fewn parth diogelu gwaith presennol neu ar gyfer gwaith neu weithfeydd peryglus newydd (gan gynnwys meysydd awyr) yn dilyn canllawiau'r cyrff diogelu perthnasol o ran goblygiadau iechyd a diogelwch y cynnig, gan gynnwys cydnawsedd â defnyddiau tir cyfagos ac yn y cyffiniau a'r goblygiadau i lwybrau dynesu yn yr ardal. Bydd nodyn cynghorol ar wahân yn cael ei baratoi ar ba weithfeydd peryglus sydd â pharthau diogelu a sut mae cael rhagor o wybodaeth berthnasol iddynt.

7.10 Rhaid i unrhyw lygredd goleuni sy'n cael ei greu fel rhan o ddatblygiad fod yn angenrheidiol a chyfiawnadwy, er enghraifft ar sail pryderon diogelwch. Fe all effaith llygredd goleuni fod yn andwyol dros ben ar rywogaethau gwarchodedig allweddol fel ystlumod ac, felly, dylid ei leihau. Fe all hefyd effeithio er gwaeth ar ymdeimlad o le, gydag effeithiau cronnol ar amgylcheddau tirwedd. Bydd nodiadau esboniadol ar lefelau goleuni priodol yn cael eu cynhyrchu. Mae'r CCA Bioamrywiaeth yn rhoi canllawiau ar sut all goleuo effeithio ar rywogaethau pwysig a gwarchodedig.

7.11 Mae rhan o warchod hynodrwydd Sir Benfro, o ran tirwedd a diwylliant, yn golygu diogelu natur neilltuol ei hanheddau. Felly, ni fydd cynigion a fyddai'n cyfrannu at gyfuno anheddau neu ddatblygu hirgul sy'n cymryd tir o gefn gwlad yn cael eu caniatáu.

**GN. 2 Dylunio Cynaliadwy**

Bydd datblygu'n cael ei ganiatáu pan gaiff meini prawf perthnasol eu cyrraedd:

1. O ddyluniad da sy'n rhoi ystyriaeth briodol i hynodrwydd lleol ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y cyd-destun lleol;

2. Priodol i'r cymeriad lleol a chyd-destun tirwedd / trefwedd o ran gosodiad, graddfa, ffurf, lleoliad, crynswth, uchder, trwch, cymysgedd, manylion, defnyddio deunyddiau, tirweddu a threfniadau / cynllun mynediad;

3. Ymgorffori dyluniad effeithlon o ran adnoddau ac ymatebol i'r hinsawdd trwy leoliad, gogwydd, trwch, gosodiad, defnydd tir, deunyddiau, arbed dŵr a defnyddio systemau draenio cynaliadwy ac atebion rheoli a chadw gwastraff;

4. Cyflawni dyluniad hyblyg ac addasadwy;

5. Creu amgylchedd cynhwysol a hygyrch ar gyfer defnyddwyr ac sy'n rhoi sylw i ddiogelwch cymunedol;

6. Darparu bro gyhoeddus fywiog ac o safon sy'n ymdoddi'n dda i strydoedd a lleoedd cyffiniol, a

7. Cyfrannu at greu lle awyr agored wedi'i lunio'n dda gyda chysylltiadau da â strydoedd, lleoedd a seilwaith gwyrdd arall cyffiniol.

7.12 Cyflawni datblygiad cynaliadwy yw sail y drefn gynllunio yng Nghymru. Fel rhan o'r agenda datblygu cynaliadwy at ei gilydd yng Nghymru a Sir Benfro, mae'r polisi hwn yn ceisio creu adeiladau a lleoedd mwy cynaliadwy trwy sicrhau bod holl ddatblygiad newydd yn cael ei lunio a'i adeiladu i gyrraedd holl feini prawf polisi perthnasol a goblygiadau hawdd ei gynnal. Yn ogystal â bod o gryn bwysigrwydd i holl adeiladau newydd, bydd y meini prawf polisi hefyd yn berthnasol i addasiadau ac estyniadau i adeiladau presennol. O ran cynigion ar raddfa fach, bydd ystyriaethau meini prawf polisi'n gymesur â'r math o ddatblygiad arfaethedig.

7.13 Mae dylunio da'n dibynnu ar gynigion sy'n deillio o ddealltwriaeth o'r safle a'i gyd-destun, yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddio cynlluniau safle a mathau o adeilad safonol yn ddiddychymyg. Nod y polisi hwn yw codi safon dylunio holl ddatblygiad newydd ledled y Sir er mwyn creu adeiladau a lleoedd deniadol a gweithredol a gwella ardaloedd o gynllun a gosodiad gwael.

7.14 Mae amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro'n cyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd ei thrigolion ac ymwelwyr â hi. Trwy hyrwyddo hynodrwydd lleol, mae Cynllun Gofodol Cymru'n ceisio gwrthdroi'r duedd fod Cymru'n dod yn fwy unffurf oherwydd nad yw mathau safonol o adeilad yn aml yn adlewyrchu dulliau adeiladu lleol traddodiadol. Oherwydd bod gwahanol nodweddion dylunio'n bodoli yng ngwahanol ardaloedd y Sir, mae'n bwysig bod datblygwyr yn mabwysiadu agwedd at ddylunio sy'n sicrhau bod holl ddatblygu newydd yn ymateb yn gadarnhaol i nodweddion y safle a'i amgylchoedd. Nod y polisi hwn yw sicrhau bod holl ddatblygu newydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad ac arbenigrwydd lleol yr amgylchedd adeiledig a naturiol a chymunedau Sir Benfro. Lle nad oes nodweddion lleol cryf, bydd dylunio cyfoes, da, cynaliadwy'n briodol.

7.15 Tra bod gwneud lle'n ymwneud â sicrhau bod ardal yn cadw'i chymeriad unigryw, nid yw'r egwyddor hon yn groes i ddyluno da, cyfoes. Fel y derbyniwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), mae 'dylunio' yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau esthetig tradddodiadol ac mae'n ymwneud â'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo agwedd fwy ystyriol at ddylunio adeiladau yn Sir Benfro yn hytrach nag ateb dylunio unffurf ar gyfer pob ardal ac mae'n annog defnyddio agweddau priodol ar draddodiadau a nodweddion dylunio lleol i gynhyrchu adeiladau cyfoes.

7.16 Mae newid yn yr hinsawdd yn her amgylcheddol hirdymor ac mae'n hanfodol lleihau allyriadau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Bydd gofyn i ddatblygwyr roi sylw i ddylunio ymatebol i'r hinsawdd ac effeithlon o ran ynni yn gynnar yn y broses ddylunio trwy ddefnyddio trwch adeiladau a phatrymau datblygu cynaliadwy ac ymgorffori dylunio adeiladau cynaliadwy. Dylid ystyried lleoliad, gosodiad, gogwydd, trwch, defnydd tir, deunyddiau, technegau adeiladu, tirweddu, cadwraeth dŵr ac atebion rheoli gwastraff. Pan fo hynny'n briodol, bydd disgwyl i gynigion datblygu newydd gynnwys defnyddio deunyddiau adeiladu a ailgylchwyd, gan gynnwys agregau eilaidd. Bydd dyfodiad cyfundrefn ganiatáu'r Cynllun Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS) yn gynnar yn 2019 yn ei gwneud yn orfodol cynnwys SuDS yn holl ddatblygiadau dros 100m$^2$ neu lle mae 2 annedd neu fwy. Dylid ystyried gofyniad dylunio gosodiad ar gyfer SuDS yn gynnar.

7.17 Bydd angen i ddyluniadau ymgorffori ymatebion i effaith debygol newid yn yr hinsawdd mewn cysylltiad â thymereddau uwch trwy gysgodi, oeri ac awyru naturiol a goblygiadau stormydd a llifogydd. Dylid dylunio adeiladau a seilwaith cysylltiedig i fod yn hyblyg nid yn unig i newid yn yr hinsawdd ond hefyd i roi lle i amrywiaeth o ddefnyddiau ac anghenion newidiol yn ystod eu hoes.

7.18 Dylid ystyried y fro gyhoeddus fel elfen annatod o'r broses ddylunio. Dylid dylunio, adeiladu a chynnal cynigion datblygu i greu bro gyhoeddus hygyrch a bywiog o safon sy'n cyd-fynd yn dda â strydoedd a mannau agored cyfagos. Dylai cynigion ymdoddi i rwydweithiau symud presennol, gan leihau cysylltedd, ar yr un pryd â chreu ymdeimlad o ddidoredd a natur gaeëdig i gynorthwyo creu strydoedd a mannau agored lleol arwahanol.

7.19 Dylid cymhwyso egwyddor dylunio cynhwysol i holl ddatblygu newydd er mwyn creu amgylcheddau sy'n hygyrch i holl ddefnyddwyr gan hybu cerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus. Dylai cynigion hyrwyddo strydoedd a mannau agored fel lleoedd amlswyddogaethol lle mae blaenoriaeth i gerddwyr, yn ôl cyngor y 'Llawlyfr ar gyfer Strydoedd'.

7.20 Bydd gofyn i ddatblygwyr wella diogelwch cymunedol trwy ddyluniad datblygu newydd, trwy gyflwyno mesurau diogelwch priodol a gweld bod cymunedau'n gallu meithrin ymdeimlad o berchenogaeth a chyfrifoldeb dros fannau agored lleol. Yn ei dro, bydd hyn yn gwneud cymunedau'n fannau i fyw ynddynt ac i ymweld â hwy.

### GN.3 Seilwaith a Datblygiad Newydd

Pan fo datblygu'n cynhyrchu angen am seilwaith, gwasanaethau neu gyfleusterau cymunedol newydd neu well sy'n uniongyrchol gysylltiedig â hyn heb ei raglennu eisoes gan gwmni gwasanaethau neu seilwaith, rhaid i'r datblygiad dalu am hyn, a:

1. Bod yn gydnaws â'r datblygiad o ran maint a math; a

2. Cael ei ddarparu ar y safle pan fo hynny'n briodol. Dan amgylchiadau eithriadol, mae modd cyfrannu at ddarparu cyfleusterau yn rhywle arall, ond bod eu lleoliad yn gallu gwasanaethu'r datblygiad yn ddigonol. Bydd darparu seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n uniongyrchol gysylltiedig yn brydlon yn cael ei sicrhau trwy amodau cynllunio, ceisio rhwymedigaethau cynllunio trwy drafodaeth, a/neu drwy unrhyw gytundeb neu ymrwymiad arall.

Bydd hyfywedd datblygiad yn ystyriaeth allweddol wrth sicrhau rhwymedigaethau cynllunio ac efallai caniateir gollyngiad dan amgylchiadau penodol ble fo tystiolaeth glir na fyddai'r datblygiad yn hyfyw.

Yn y lle cyntaf, bydd angen mesurau ffisegol angenrheidiol i gyflawni datblygiad a sicrhau ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio. Pan fo hynny'n briodol, fe all cyfraniadau gael eu ceisio at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys y canlynol:

1) Tai fforddiadwy
2) Seilwaith Gwyrdd, Tir Agored ar gyfer Hamdden ac Amwynder
3) Cyfleusterau Cludiant Cynaliadwy
4) Addysg
5) Cyfleusterau Cymunedol a Diwylliannol, gan gynnwys llyfrgelloedd a neuaddau cymunedol
6) Adfywio
7) Gwastraff
8) Ynni adnewyddadwy a rhad ar garbon
9) Bioamrywiaeth
10) Band Eang

Os bydd ystyriaethau hyfywedd yn dangos na fydd yr holl gyfraniadau a nodwyd yn ofynnol o fewn rheswm, bydd cyfraniadau blaenoriaethol yn cael eu penderfynu ar sail amgylchiadau unigol pob achos. Yn achos datblygiadau tai, bydd tai fforddiadwy'n cael blaenoriaeth oni bai fod angen ysgubol neilltuo'r cyfraniad sydd ar gael, i gyd neu'n rhannol, at ryw ddibenion eraill.

7.21 Mae datblygu newydd yn gwneud gofynion ychwanegol ar seilwaith a gwasanaethau ac, felly, bydd disgwyl iddo wneud cyfraniad at seilwaith

cymdeithasol, diwylliannol ac adeileddol. Darparu cyfleusterau digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau fel cyflenwad dŵr; draenio dŵr aflan a dŵr arwyneb; rheoli gwastraff; cynhyrchu a dosbarthu trydan; cyfathrebu; cludiant cyhoeddus; tir agored a chyfleusterau cymunedol, yw sail cyflawni datblygiad cynaliadwy o fewn ardal y Cynllun.

7.22 Hefyd mae'n bwysig darparu ar gyfer lliniaru effeithiau datblygu newydd a allai fod yn andwyol ar fioamrywiaeth ac etifeddiaeth ddiwylliannol. Fe allai effeithiau andwyol gynnwys, er enghraifft, mwy o erydiad, pwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau, newidiadau i gymeriad y dirwedd, lleihau etifeddiaeth ddiwylliannol neu fywioldeb ieithyddol, ymwthiad sŵn, ansawdd yr awyr a thagfeydd traffig.

7.23 Pan fo angen, bydd gofyn i ddatblygiadau gyfrannu at seilwaith, gwella tirweddau a mesurau lliniaru, trwy rwymedigaethau cynllunio, ymrwymiad unochrog neu Ardoll Seilwaith Cymunedol fel y bo'n briodol. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn asesu ei sefyllfa o ran yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a bydd yn ystyried pa un ai i gyflwyno Rhestr Brisiau ar gyfer prosiectau mwy neu beidio. Byddai Rhestr o'r fath yn gweithredu ochr yn ochr â dal i ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer seilwaith ar raddfa fach ac i sicrhau darparu tai fforddiadwy. Gallai gofynion cyfraniadau gynnwys tai fforddiadwy, cludiant, seilwaith adeileddol, cynlluniau lliniaru llifogydd, Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), cynlluniau ynni, darparu addysg, llyfrgelloedd, diogelwch cymunedol, creu neu wella'r rhwydwaith hamdden, cyfleusterau cymunedol, a chadwraeth bioamrywiaeth / natur.

7.24 Bydd gofynion manwl ar gyfer cyfraniadau o'r fath (gan gynnwys blaenoriaethau) yn cael eu nodi mewn CCA fel bod darpar ddatblygwyr yn gallu cynnwys y costau angenrheidiol yn eu cyllid datblygu ar gyfnod cynnar.

7.25 Fel eithriad, mae'r polisi hwn yn caniatáu ar gyfer adleoli seilwaith hanfodol, fel ffyrdd, is-orsafoedd trydan, gorsafoedd pwmpio a chyfleusterau trin dŵr gwastraff, pan fo naill ai'n cael ei effeithio'n andwyol gan lifogydd afonol neu arfordirol a/neu erydiad neu'n cael ei ddynodi mewn perygl dybryd yn y cynllun priodol.

**GN.4 Cynigion Effeithlonrwydd Adnoddau a Ynni Adnewyddadwy a Rhad ar Garbon**

Dylai cynigion datblygu geisio lleihau'r gofyn am adnoddau, gwella effeithlonrwydd adnoddau a cheisio cynhyrchu ynni o adnoddau adnewyddadwy, pan fo hynny'n briodol. Bydd disgwyl iddynt fod wedi'u dylunio'n dda o ran defnyddio ynni.

Bydd datblygiadau sy'n galluogi cyflenwi ynni adnewyddadwy trwy atebion derbyniol yn amgylcheddol yn cael eu cefnogi.

7.26 Mae effeithlonrwydd cyffredinol ynni, gwres a dŵr o ran adnoddau'n elfen bwysig o ddylunio da. Trwy leihau'r gofyn am adnoddau, mae buddiannau enfawr, gan gynnwys cynorthwyo cyrraedd targedau'r DU ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, lleihau pwysau ar adnoddau lleol fel cronfeydd dŵr a lleihau costau cynnal hirdymor i ddeiliaid tai unigol.

7.27 Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn paratoi Asesiadau Ynni Adnewyddadwy (AYA), fydd yn ysbrydoli polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn llywio nodi ardaloedd chwilio a neilltuo tir ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau eraill rhad ar garbon ar raddfa'r awdurdod lleol (5MW i 25MW ar gyfer ynni o'r gwynt). Fel rhan o gefndir cyd-destunol y CDLl, nid yw Sir Benfro o fewn Ardal Chwilio Strategol TAN 8 ar gyfer datblygiadau tyrbinau gwynt ar raddfa fawr (rhai 25MW a mwy) - fel bod y canolbwynt ar y cynlluniau ar raddfa'r awdurdod lleol o lai na 25MW. Dylid troi cynlluniau 25MW a mwy i'r Ardaloedd Chwilio Strategol oddi allan i Sir Benfro.

7.28 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gist Offer Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Cynllunwyr yn 2010, i gynorthwyo paratoi sylfaen dystiolaeth gadarn fel sail i bolisïau'r CDLl i gynorthwyo datblygu systemau ynni adnewyddadwy a rhad ar garbon. Diweddarwyd hyn yn 2015, y fersiwn diweddaraf hwn yn ffurfio sail ar gyfer paratoi AYA CDLl Cyngor Sir Penfro, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017. Mae hwn yn ffurfio papur cefndirol ar gyfer CDLl 2, gan ddarparu cyd-destun polisi ynni adnewyddadwy a chanlyniadau sy'n dod o ddefnyddio amrywiol dasgau'r gist offer. Caiff crynodeb o gyfraniadau posibl ei gyflwyno, ynghyd ag asesiad o swyddogaeth y Cyngor wrth gynorthwyo pethau adnewyddadwy cymunedol.

7.29 Mae technolegau ynni adnewyddadw i'w cael ar amrywiaeth o raddfeydd, o fân-gynhyrchu i gynhyrchu ar raddfa fawr. Mae amrywiaeth o wahanol dechnolegau ar gael hefyd, gyda chyfleusterau alltraeth yn ddibynnol ar seilwaith safleodd glanio ar y tir. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) Cynhyrchu pŵer o fiomas

b) Pŵer dŵr

c) Cynhyrchu pŵer o nwy tirlenwi

d) Cynhyrchu pŵer o wastraff trefol a diwydiannol

e) Twymo dŵr solar a ffotofoltaidd, a dylunio solar goddefol

f) Cynhyrchu pŵer o nwy carthion

g) Ynni llanwol a ffrwd lanwol

h) Ynni tonnau

i) Ynni o'r gwynt ar y môr

j) Ynni o'r gwynt ar y tir

k) Amrywiol dechnolegau mân-gynhyrchu, gan cynnwys micro-dyrbinau a phŵer solar ar raddfa fach, ynghyd ag ynysu ac ailgylchu dŵr glaw

l) Ffynonnellau daear (trwy bympiau gwres)

7.30 Nid yw'r safleoedd ar gyfer y cynigion hyn yn gorfod bod â chysylltiad uniongyrchol â chynigion datblygu newydd o angenrheidrwydd, ond bydd cynigion sylweddol yn aml yn gofyn cyswllt gweithredol rhwng ffynhonnell y pŵer a defnyddwyr y cynnyrch terfynol a/neu'r Grid Cenedlaethol. Fe all anheddau mwy neu ddatblygiadau cyflogaeth ddarparu angor gwres ar gyfer cynigion o'r fath.

7.31 Bydd yr effaith ar y dirwedd, yn unigol neu ar y cyd, yn ystyriaeth sylweddol wrth gloriannu cynigion ynni adnewyddadwy, gyda LANDMAP yn darparu offeryn gwerthfawr ar gyfer dadansoddi tirwedd.

7.32 Bydd disgwyl i gynigion datblygu ddangos yr ystyriwyd defnydd ynni ar adeg dylunio.

### GN.5 Datblygiadau Mewnlenwi mewn Pentrefannau

Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl mewn mannau lle mae cydlyniad ffisegol o anheddau (pentrefan), na ddynodwyd fel anheddiad yn yr Hierarchaeth Anheddau, yn cael eu cefnogi:

1. Pan fo'r cynnig ar gyfer 1 neu 2 o dai ar y safle fan mwyaf;
2. Ei fod yn cynrychioli datblygiad mewnlenwi ystyriol o fwlch bach mewn wyneb adeiledig sy'n ddi-dor fel arall;
3. Bod y raddfa, gosodiad a thrwch yn cyd-fynd â (a heb fod yn niweidiol i) gymeriad yr ardal (gan gynnwys tirwedd a threfwedd);
4. Mewn mannau lle mae 20 annedd neu fwy (gan gynnwys y rheiny sydd gyda'r fantais o ganiatâd cynllunio), bod y datblygiad ar gyfer tai'r farchnad neu dai fforddiadwy pan fo galw lleol;
5. Mewn mannau lle mae llai nag 20 annedd, bod y datblygiad ar gyfer dai fforddiadwy pan fo galw lleol.

7.33 Mae nifer o ardaloedd ar draws Sir Benfro lle mae pentrefannau sy'n ffurfio elfen bwysig o'r gymuned wledig yn y fan honno.

7.34 Mae'r polisi hwn yn caniatáu ar gyfer mewnlenwi ystyriol o flychau bach mewn wynebau adeiledig sy'n ddi-dor fel arall. Mewn mannau gydag 20 annedd neu fwy, bydd cynigion ar gyfer tai'r farchnad a thai fforddiadwy pan fo galw lleol yn cael eu cefnogi. Bydd gofyn i dai newydd y farchnad roi cyfraniad o 50% yn lle ar gyfer tai fforddiadwy pan fo galw lleol, yn unol â'r agwedd ar gyfer Pentrefi Lleol.

7.35 Mewn mannau gyda llai nag 20 annedd, bydd cynigion ar gyfer tai fforddiadwy pan fo galw lleol yn cael eu cefnogi. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu cynhyrchu i roi rhagor o eglurhad ar y polisi hwn.

7.36 Pan fyddai effeithiau cynigion cronnol yn effeithio'n andwyol ar gymeriad ardal, byddant yn cael eu gwrthwynebu.

# 8. Cynnydd a Chyfnodau'r CDLl yn y Dyfodol

## Safleoedd Ymgeisiol

8.1 Cyhoeddodd Cyngor Sir Penfro alwad am **Safleoedd Ymgeisiol** rhwng 22ain Mawrth a 14eg Awst 2018. **Safleoedd Ymgeisiol** yw safleoedd a awgrymwyd gan y cyhoedd i'w cynnwys yn y CDLl, naill ai tir i'w ddatblygu, neu i'w warchod rhag datblygiad.

8.2 Paratowyd **Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol** a chaiff ei chyhoeddi ar y cyd â'r ddogfen hon er gwybodaeth. Mae hon yn cynnwys manylion holl **Safleoedd Ymgeisiol** a dderbyniwyd gan yr Awdurdod. Ar yr adeg hon nid yw'r Awdurdod wedi penderfynu pa safleoedd fydd yn briodol i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol; mae hyn yn dibynnu'n rhannol ar ganlyniad yr ymgynghori hwn â'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae wedi nodi'r safleoedd hynny y mae'n ystyried a allai gydymffurfio â'r Strategaeth Ddewisol.

## Cyfnodau Allweddol a Llinell Amser Arfaethedig y CDLl

## CDLl Cyn Adneuo ac Adneuo

8.3 Cyhoeddwyd y ddogfen hon, y **Strategaeth Ddewisol**, ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd fel rhan o'r cyfnod Cyn Adneuo. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghori hwn â'r cyngor yn ysbrydoli datblygu '**Cynllun Adneuo**' yr Awdurdod. Y Cynllun Adneuo yw drafft llawn y Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys holl bolisïau yn ogystal â drafft o'r ffiniau anheddiad a thiroedd sy'n cael eu neilltuo. Mae Cyngor Sir Penfro'n rhagweld cyhoeddi hwn ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn hydref 2019.

## Canllawiau Cynllunio Atodol

8.4 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol drafft yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ar y cyd â'r Cynllun Adneuo, pan gaiff ei ystyried y byddai hyn o fanylion yn ddefnyddiol wrth roi eglurhad ar sut fyddai polisïau arbennig yn gweithredu. Ar yr adeg hon, mae Cyngor Sir Penfro'n rhagweld cyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol ar y cyd â'r Cynllun Adneuo:

- Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy
- Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio
- Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu

# Atodiadau

## Atodiad 1: Tabl Tai Fforddiadwy

| **Hanes Cyflenwi Tai Fforddiadwy (2013-2018)** | **2017/2018** | **2016/2017** | **2015/2016** | **2014/2015** | **2013/2014** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gyda CGF | 63 | 94 | 110 | 157 | 73 | **99.4** |
| Heb CGF | 19 | 12 | 25 | 1 | 0 | **11.4** |
| Cyfansymiau | 82 | 106 | 135 | 158 | 73 | **110.8** |
| | | | | | | |
| **Cyflenwi Tai Fforddiadwy heb CGF (cyfartaledd 5 mlynedd)** | **Unedau TFf a gyflenwyd gyda'r Grant (cyfartaledd 5 mlynedd)** | **Rhagolwg o gyflenwad CSP y flwyddyn (gan ddefnyddio HRA)** | **Cyfanswm y flwyddyn** | | | |
| 11.4 | 50 | 64 | **125.4** | | | |
| | | | | | | |
| **2017-2033 (cyfnod Adolygiad y Cynllun) Targed Tai Fforddiadwy (125 y flwyddyn wedi'i luosi ag 16)** | 2006.4 | | | | | |